

Ymgynghori



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Brexit a'n tir:

Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

Ymatebion erbyn 30 Hydref 2018



llyw.cymru

Trosolwg o'r Ymgynghoriad	2
Crynodeb	3
Pennod 1: Cyd-destun newydd Brexit	4
Pennod 2: Gwerth tir Cymru	5
Pennod 3: Yr achos dros newid	9
Pennod 4: Rhaglen Rheoli Tir i Gymru	20
Pennod 5: Cynllun Cadernid Economaidd	27
Pennod 6: Cynllun Nwyddau Cyhoeddus	41
Pennod 7: Fframwaith rheoleiddiol	51
Pennod 8: Pontio, cyflawni a deddfwriaeth	54
Pennod 9: Gweithio ar draws y Deyrnas Unedig	58
Pennod 10: Y Camau Nesaf	60



Mae tir Cymru'n bwysig i bawb ohonom. Mae'n cefnogi bywoliaeth pobl, yn angori cymunedau ac yn creu adnoddau naturiol hollbwysig yr ydym ni i gyd yn dibynnu arnynt. Mae'r bobl sy'n ei reoli'n gwneud cyfraniad aruthrol er lles ein gwlad.

Mae gadael yr UE yn dwyn heriau sylweddol ond mae gennym gyfle unigryw i sefydlu polisi Cymreig pwrpasol sy'n cyflawni dros ein heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd naturiol. Rhaid inni achub ar y cyfle hwn.



Ceir achos anorchfygol dros gefnogi rheolwyr tir ac mae'r papur hwn yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer diwygio uchelgeisiol.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth ac egni'r holl randdeiliaid yng Nghymru sydd wedi dod ynghyd i'n cynorthwyo gyda'r gwaith yma. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau hyn wrth inni baratoi cynlluniau manwl, cyflwyno deddfwriaeth gerbron a gweithredu newid.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones'.

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lesley Griffiths'.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni,
Cynllunio a Materion Gwledig

Trosolwg ar yr Ymgynghoriad

Mae'r papur hwn yn egluro ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig parhau i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Mae'n nodi cynigion ar gyfer cyfnod pontio wedi'i gynllunio, dros sawl blwyddyn ac yn ceisio barn a syniadau ynglŷn â sut y dylai'r cynlluniau penodol a fydd yn rhoi'r cymorth gael eu dylunio.

Sut i Ymateb

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi rhoi o'ch amser i ddarllen ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r holl gwestiynau ymgynghori'n ddewisol ac eithrio'r cwestiynau 'Amdanoch chi'. Mae hyn yn dangos inni a ydym wedi ymgynghori ag ystod amrywiol ac eang o bobl. Bydd ymatebion ar ran sefydliadau'n cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad rydym yn gofyn am eich enw ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, mae gennych y dewis i aros yn ddiennw os ydych yn dymuno. Cyfeiriwch at yr adran Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth am y modd y defnyddir yr wybodaeth hon.

Bydd yr ymgynghoriad yn para o 10 Gorffennaf 2018 tan 30 Hydref 2018. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl yr amser hwn yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dywedwch eich dweud. Mae'n bwysig i ni ein bod yn clywed eich barn. Bydd yn ein helpu i lunio a chaboli'n cynigion.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori yw **23:59** ar **30 Hydref 2018**.

Cewch gyflwyno'ch sylwadau mewn sawl ffordd, fel a ganlyn:

Ar-lein

I weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Ysgrifennwch lythyr:

Brexit a'n Tir
Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig:

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill o ofyn amdanynt. Os hoffech gopi caled, e-bostiwch:

Brexitantir@llyw.cymru

Nodyn ar y dull enwi

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term "rheolwr tir" a "rheoli tir" i olygu ffermwyr, coedwigwyr ac unrhyw weithgarwch arall sy'n defnyddio tir nad yw'n dir trefol i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau.

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn sefydlu polisi rheoli tir sy'n cwmpasu gwahanol ddefnyddiau a dosbarthau tir. Mae hyn yn gyson â'r dull cyfannol a ddefnyddir yn Neddf yr Amgylchedd. Wrth gwrs, ffermwyr yw mwyafrif llethol y rheolwyr tir yng Nghymru, a dyna fyddant o hyd.

Mae tir Cymru'n bwysig. Mae'n darparu bywoliaeth, yn cynnal cymunedau ac yn creu adnoddau naturiol hollbwysig yr ydym ni i gyd yn dibynnu arnynt.

Mae rheolwyr tir wedi trefnu'r dirwedd yng Nghymru fel yr ydym ni'n ei hadnabod heddiw. Mae'n rhan gynhenid o'n cenedl. Felly mae'r modd y caiff tir ei reoli'n bwysig i bawb ohonom – mae gan reolwyr ein tir y potensial i ddwyn canlyniadau sydd o bwys enfawr i Gymru.

Nid yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn gwneud digon i gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae Brexit yn rhoi inni'r cyfle i ailddylunio systemau cymorth i wella'r manteision ehangach y mae tir yn eu dwyn i Gymru a chefnogi'r broses o gyflawni ein fframwaith deddfwriaethol unigryw. Yn wir, mae canlyniadau economaidd Brexit yn ein gorfodi i wneud hynny. Mae cryn dipyn o ansicrwydd, ond mae'r ystod o senarios yn y dyfodol yn dangos nad yw cadw'r sefyllfa bresennol y opsiwn.

Yn dilyn Brexit, rydym ni'n cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd a fydd yn disodli'r PAC yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau gynllun trosfwaol: y Cynllun Cadernid Economaidd a'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

Bydd y Cynllun Cadernid Economaidd yn targedu buddsoddiad er lles rheolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi. Bydd y cynllun yn rhoi cymorth i gynyddu potensial y farchnad, ysgogi gwelliannau mewn cynhyrchiant, arallgyfeirio, gwella'r modd y rheolir risgiau a gwella arferion cyfnewid gwybodaeth a sgiliau. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu busnesau i sefyll ar eu traed eu hunain.

Bydd y cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn rhoi cymorth i ddarparu rhagor o nwyddau cyhoeddus o'r tir. Yn gyfnewid am hynny, bydd yn darparu ffrwd incwm newydd i reolwyr tir ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at fynd i'r afael â rhai o'n heriau mwy dybryd megis y newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, ansawdd aer andwyol ac ansawdd dŵr gwael.

Fel sail i'r ddau gynllun hwn rydym ni o'r farn bod achos da dros reoleiddio tecach, symlach a mwy cydlynus. Fel sail i'r ddau gynllun hwn rydym ni o'r farn bod achos da dros reoleiddio tecach, symlach a mwy cydlynus.

Mae'r Rhaglen yn nodi newid sylweddol. Gall rheolwyr tir addasu ond rôl y Llywodraeth yw cefnogi newid. Rydym felly'n cynnig cynllun pontio graddol i symud o hen gynlluniau i gynlluniau newydd. Rydym yn bwriadu cyflwyno cynigion manwl erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf a deddfwriaeth erbyn diwedd tymor y Cynulliad. Ein huchelgais yw cwblhau'r broses ddiwygio erbyn 2025. Byddwn yn defnyddio systemau llwyddiannus presennol Taliadau Gwledig Cymru (RPW) fel sail i weinyddu rhaglenni ac yn ceisio symleiddio prosesau lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae achos cryf dros gymorth pwrpasol yng Nghymru. Mae ein tir yn wahanol, mae ein cymunedau'n wahanol ac mae ein sectorau'n wahanol. Rhaid i fframwaith y DU yn y dyfodol gydnabod hyn a sicrhau bod gan Gymru'r hyblygrwydd i lunio polisïau sy'n adlewyrchu'r cyd-destun unigryw yng Nghymru. I fod yn gwbl effeithiol mae arnom angen setliad cyllido teg hefyd ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu mwy o eglurder ar fyrder.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion ar gyfer newid sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ond megis dechrau gwaith ymgynghori pellach yw hyn a byddwn yn cydweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod pob cam.

Yn ein papur gwyn, “Diogelu Dyfodol Cymru”, fe wnaethom nodi ein blaenoriaethau i sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol wedi i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y rhain yn cynnwys diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol a chefnogi’r bobl sy’n eu rheoli. Fe wnaeth “Ffyniant i Bawb” – strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru – ailddatgan yr ymrwymiad hwn.¹

1.1 Y ddogfen hon yw’r ddiweddaraf mewn cyfres o bapurau Brexit gan Lywodraeth Cymru ar faterion trawsbynciol sydd o ddiddordeb cenedlaethol. Er mai hon yw’r gyntaf i gyflwyno polisi datganoledig, newydd, mae’r materion yr ymdrinnir â hwy’n ymwneud yn agos â pholisi Brexit cyffredinol Cymru, sef:

Cymdeithas a’r amgylchedd – mae sicrhau ein hawliau cymdeithasol ac amgylcheddol yn ddibynol ar bolisiau sy’n pennu sut y caiff ein tir ei ddefnyddio, er enghraifft o ran effeithiau ar ansawdd dŵr

Y farchnad sengl, undeb tollau a masnach ryngwladol – bydd newidiadau i’r amgylchedd masnachu’n effeithio’n sylweddol ar ein sectorau amaeth a choedwigaeth

Cyllid a buddsoddi – mae’r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn elfen arwyddocaol o o gyllid yr UE yng Nghymru a rhaid i’r cyllid llawn ddychwelyd i Gymru

Materion cyfansoddiadol a datganoli – mae achos cryf dros hyblygrwydd datganoledig sylweddol ac mae arnom angen trefn lywodraethu o fewn y DU i sicrhau cydweithredu ledled y DU

Mudo – mae sawl rhan o’r gadwyn gyflenwi amaethyddol yn ddibynnol ar lafur mudol o wledydd yr UE

Trefniadau pontio – rhaid inni fod â phroses bontio sydd wedi’i chynllunio ac yn rhychwantu sawl blwyddyn, o’r trefniadau cyffredol i bolisi newydd

1.2 Er bod Brexit yn ein gorfodi i ystyried ein polisiau o’r newydd, rydym ni o’r farn y daw cyfleoedd sylweddol yn sgil diwygio’r trefniadau presennol. Her fawr Brexit yw sicrhau nad yw ei effaith yn tansailio’r gwir werth y mae ein tir a rheolwyr tir yn ei ddarparu i Gymru; y cyfle mawr yw sefydlu polisiau a chymorth newydd yng Nghymru fydd yn helpu rheolwyr ein tir i addasu a ffynnu mewn byd ar ôl Brexit.

1.3 Dyma’r sail i gyflwyno’r cynigion yn y ddogfen hon. Mae ein gwaith wedi elwa’n fawr o fewnbwn sylweddol gan randdeiliaid, yn bennaf Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet ac yn arbennig yr Is-grŵp Rheoli Tir. Byddwn yn parhau â’r gwaith ymgysylltu ac mae’r ymgynghoriad hwn yn nodi dechrau sgwrs newydd a manwl.

1.4 Byddwn yn nodi cynigion manwl, pellach tua’r gwanwyn y flwyddyn nesaf. Yn dilyn hyn, rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol gerbron i ddarparu ar gyfer diwygio a’n huchelgais yw cyhoeddi deddfwriaeth cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Ein huchelgais yw cwblhau’r broses ddiwygio erbyn 2025.

¹ <https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

Pennod 2: Gwerth tir Cymru

Mae tir a rheolwyr tir Cymru'n bwysig i bawb ohonom. Gyda'i gilydd maent yn darparu bywoliaeth, yn cynnal cymunedau ac yn sicrhau adnoddau naturiol hollbwysig. Rydym ni o'r farn bod rheoli ein hadnoddau naturiol yn dda yn galluogi ein cymunedau i flodeuo, yn gwella'r economi, ac yn gwella llesiant Cymru. Rydym ni am sicrhau bod rheolwyr ein tir yn cael yr adnoddau a'r cymorth i wneud i hyn ddigwydd.

2.1 Mae Cymru'n wlad fechan a chanddi ddaearyddiaeth amrywiol tu hwnt. Mae rhanbarthau mynyddig yn y gogledd yn arwain at ucheldiroedd yn y canol, sy'n arwain at gymoedd a gwastatiroedd arfordirol y de a'r gorllewin. O fewn hyn, ceir amrywiaeth neilltuol o dirweddau a chynefinoedd.

2.2 O ganlyniad, mae gennym safleoedd twristiaeth o safon fyd-eang, enw da cynyddol am fwyd a diod, peth o'r cynnyrch da byw gorau yn y byd sydd wedi'i besgi ar borfa a diwydiant pren ffyniannus – ac adnoddau naturiol Cymru yn sail i'r cyfan. Mae'r dirwedd a'r cynefinoedd y mae'n eu cynnwys yn cynrychioli elfen bwysig o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'n enwog yn rhyngwladol ac yn cael ei gwerthfawrogi gan bobl Cymru – am ei harddwch, am y cyfleoedd hamdden y mae'n eu darparu, am ei rhywogaethau brodorol, ac am ei threftadaeth ddiwylliannol.

2.3 Mae dros 90% o dir Cymru yn nwylo ein ffermwyr, coedwigwyr neu stiwardiaid eraill y dirwedd.²

Y rheolwyr tir hyn a'r rhai o'u blaenau sydd wedi trefnu'r dirwedd yr ydym yn ei chydabod heddiw. Dros gannoedd o flynyddoedd, maent wedi creu rhan gynhenid o'n cenedl. Mae'r modd y maent yn rheoli eu tir yn cael effaith sylweddol ar holl bobl Cymru.

2.4 Mae'r tir hwn yn cael ei reoli'n bennaf at ddiben cynhyrchu defaid, gwartheg godro a gwartheg eidion ac ar gyfer coedwigaeth. Mae cyfansoddiad yr is-sector wedi newid dros amser, ond bu ffocws hirsefydlog a mawr ar laswelltiroedd a da byw sy'n pori, gyda choedwigoedd ar raddfa fawr ar rai o'r ucheldiroedd. Mae hyn yn adlewyrchu ein topograffi a'r dirwedd, gan ein gwneud yn wahanol i'r "cyffredin" yn y DU. Mae Tabl 1 yn amlygu gwahaniaethau, yn enwedig y pwyslais ar dir pori a da byw.

² Mae'r ffigur hwn yn cyfuno'r tir a hawlr fel tir amaethyddol, coedwigaeth a choetir fferm, yn unol â Thabl 1



Tabl 1: Tir Cymru yng nghyd-destun y DU

Poblogaeth – % o'r DU		5
Arwynebedd tir – % o'r DU		9
	Cymru	DU
% cyflogaeth o amaethyddiaeth	4.1	1.4
% cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Gros o amaethyddiaeth	0.7	0.6
% defnydd tir mewn amaethyddiaeth	78	70
% Tir coedwigaeth (heb fod ar ffermydd)	10	13
Coetiroedd fferm	8	4
Tir pori parhaol – % o holl dir pori'r DU		17
Diadell Cymru – % o ddiadell y DU		29
Buches odro Cymru – % o fuches y DU		13
Buches eidion Cymru – % o fuches y DU		11

Ffynhonnell: Arolwg o Amaethyddiaeth, Mehefin 2017, dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2016 a'r Comisiwn Coedwigaeth, 2017

Cyfraniad rheolwyr ein tir

2.5 Mae rheolwyr ein tir yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi, yn dwyn gwerth amgylcheddol i Gymru ac yn cefnogi rhai o rannau pwysicaf ein cymdeithas.

Cyfraniad economaidd

2.6 Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu £370m at economi Cymru (0.7% o Werth Ychwanegol Gros (GVA)), gydag amrywiadau rhanbarthol sylweddol.³ Amcangyfrifir mai GVA y sector coedwigaeth a sectorau cysylltiedig yw £530m (0.9% o'r GVA), er bod hyn yn ymgorffori prosesu eilaidd.⁴ Er bod 23,500 o bobl yng Nghymru'n dweud mai amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd yw eu prif sector cyflogaeth,⁵ mae 55,000 yn gweithio yn y sectorau hyn, gan gynnwys contractwyr, cyflenwyr ac aelodau o deuluoedd.⁶

2.7 Ond dim ond pan fo'n cael ei ystyried mewn cyd-destun ehangach y gellir mesur ei wir werth economaidd i Gymru. Mae cynnyrch o'r tir yn cyrraedd

cadwyni cyflenwi yng Nghymru i gefnogi sectorau pwysig eraill, yn arbennig bwyd a diod (**Pwynt Cefndir A**). Mae Pennod 5 yn egluro sut y gallwn wneud mwy i uno cynhyrchu cynradd yng Nghymru ar y naill law a phrosesu a gweithgynhyrchu yng Nghymru ar y llaw arall.

2.8 Yn fwy cyffredinol, y dirwedd a'r amwynderau a gynhyrchir gan reolwyr tir yw sylfaen rhan enfawr o sector twristiaeth ffyniannus Cymru; hwy sy'n trefnu'r dirwedd ac mae'r dirwedd yn briodwedd bwysig sy'n dod â phobl i Gymru. Mae Croeso Cymru yn enwi'r amgylchedd naturiol fel ein pwynt gwerthu unigryw, yn enwedig ar gyfer twristiaeth antur.

Cyfraniad amgylcheddol

2.9 Mae'r ffordd y caiff tir ei reoli'n cael dylanwad enfawr ar ymddangosiad a chymeriad tirwedd Cymru ac iechyd a chryfder yr amgylchedd naturiol. Mae arfordir, cefn gwlad, bywyd gwylt a threftadaeth Cymru'n ganolog i ddatblygu twristiaeth yng Nghymru.

³ Yn cynnwys coedwigaeth a thorri coed, gweithgynhyrchu pren a chynnyrch o bren a chorc, a gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur

⁴ Cyfrifiad Poblogaeth (2011), ONS

⁵ Arolwg o Amaethyddiaeth Cymru (Mehefin 2017) Llywodraeth Cymru

⁶ Arolwg Blyneddol o Fusesau (2016), ONS

2.10 Mae arferion da o ran rheoli tir yn gallu gwella'r amgylchedd, er enghraifft defnyddio anifeiliaid sy'n pori i gynnal cynefinoedd. Bydd rheolaeth weithredol ar dir sy'n briodol i'r safle'n gwella gwerth a nifer y canlyniadau amgylcheddol y mae tir yn gallu eu darparu. Ond mae gorweithio'r pridd, colli cynefinoedd, coedwigaeth sydd wedi'i chynllunio a'i dylunio'n wael a gordefnyddio gwrteithiau'n gallu cael effaith negyddol ar ansawdd amgylcheddol, ecosystemau a chyfalaf naturiol.

2.11 Ar ben hynny, mae ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael â llawer o'r heriau mwyaf difrifol sy'n wynebu ein hamgylchedd naturiol. Gall aer glân, dŵr glân, mwy o fioamrywiaeth, dal a storio carbon, gwell cyfleoedd o ran iechyd y cyhoedd ac o ran addysg i gyd gael eu cyflawni trwy reolaeth briodol ar dir a mynediad. Fel y dengys **Pwynt Cefndir B** mae adnoddau naturiol o ansawdd da ac ecosystemau iach yn rhan o sylfaen capasiti cynhyrchu Cymru ar gyfer bwyd a choedwigaeth, yn ogystal â'n hiechyd a'n llesiant ehangach.

Cymdeithasol a diwylliannol

2.12 Mae gweithgareddau ffermydd a choedwigoedd yn cynnal gymunedau gwledig, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae hyn o bwys mawr o ystyried y nifer fawr o ardaloedd gwledig yng Nghymru. O ran yr economi, maent yn tynnu ar gasgliad eang o fusnesau lleol, y maent i gyd yn eu tro'n cynnal cymunedau gwledig. I gymdeithas, mae'r sefydlogrwydd a ddarperir gan y ffaith bod amaethyddiaeth yng Nghymru'n pontio sawl cenhedlaeth wedi helpu i gynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ardaloedd gwledig. Mae ffermydd a ffermwyr yn aml yn cael eu disgrifio fel angorau cymdeithasol eu cymunedau lleol.

2.13 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ffabrig cymdeithasol rhannau o Gymru wledig. Mae cysylltiadau diwylliannol â ffermio ledled Cymru'n gryf ac mae gan amaethyddiaeth rôl bwysig o ran cynnal y Gymraeg. Yn wir, mae bron i draean yr

unigolion mewn sectorau rheoli tir yn siarad yr iaith yn rheolaidd (cyfran uwch nag unrhyw gategori cyflogaeth arall).

2.14 Mae rheolwyr tir hefyd yn dwyn budd i gymdeithas trwy reoli iechyd a lles anifeiliaid. Yn arbennig, mae cynnal safonau uchel yn cysylltu â diogelu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys atal ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae hyn hefyd yn cysylltu â hyrwyddo brand Cymru, fel a nodir uchod.

Ein gweledigaeth ar gyfer tir a rheolwyr tir Cymru

2.15 Mae'r cyfraniad eang ac amlweddog a nodir uchod yn cyfleu'r achos yn yr oes fodern dros gefnogi rheolwyr tir. Mae hefyd yn allweddol i gyflawni fframwaith deddfwriaethol unigryw Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁷ a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.⁸

2.16 Ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru yw bod rheolwyr tir yn darparu canlyniadau sydd o bwys enfawr i Gymru gyfan. Dim ond gan reolwyr tir yng Nghymru ar dir yng Nghymru y gall llawer o'r rhain gael eu cyflawni.

2.17 Er mwyn gwireddu'r manteision hyn mae angen inni roi cymorth priodol. Felly bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor a chymorth ariannol sy'n galluogi rheolwyr tir i benderfynu sut orau i reoli eu tir a darparu'r canlyniadau y mae cymdeithas yn eu ceisio.

2.18 Rhaid i'r cymorth hwn gydnabod hefyd bod y mwyafrif llethol o'r tir yn cael ei reoli fel busnesau ffermio neu goedwigaeth, yn arbennig mai ffermydd sy'n cynhyrchu bwyd yw craidd tir Cymru. Rhaid i'r busnesau hyn fod yn economaidd gadarn er mwyn inni allu darparu'r ystod ehangach o ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol. Felly mae dull cyfannol yn hollbwysig, fel a adlewyrchir yn Neddf yr Amgylchedd – dod o hyd i ffyrdd o wella ein hadnoddau naturiol gan greu bywoliaeth o'u cwmpas ar yr un pryd. Dyma'r sail a ddefnyddir gennym i asesu a yw polisiau cyfredol yn addas at eu diben yng nghydestun Brexit.

⁷ <https://futuregenerations.wales/cy/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol/>

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted>

Pwynt Cefndir A: Bwyd a diod Cymru

Mae cynnyrch cynradd yn helpu i gefnogi'r sector bwyd a diod ehangach – un o'r sectorau mwyaf yng Nghymru gyda GVA o £4.5bn (7.5% o'r cyfanswm) a throsiant o fwy nag £19bn. Tua £527m oedd gwerth Allforion Bwyd a Diod o Gymru ar gyfer 2017, sy'n gynnydd o ryw un rhan o bump o'i gymharu â 2016⁹. Mae'r twf diweddar mewn allforion wedi deillio'n rhannol o ganlyniad i fanteisio ar 15 o enwau bwyd gwarchoddedig.

Mae safonau uchel a'r dirwedd yng Nghymru'n elfen hollbwysig o frand Cymru. Er enghraifft, mae ymgyrchoedd marchnata gan Hybu Cig Cymru (HCC) yn aml yn canolbwyntio ar y pwys a roddir ar gysylltiadau â'r dirwedd, treftadaeth a chwaraeon gan fanwerthwyr a defnyddwyr yng Nghymru. Mae safonau a rheoliadau cydnabyddedig o gymorth i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol o ansawdd da ac yn ffordd bosibl o dorri trwodd i farchnadoedd newydd ar gyfer allforion amaethyddol o Gymru.

⁹ www.uktradeinfo.com, HMRC

Pwynt Cefndir B: Manteision adnoddau naturiol, agweddau penodol

951 miliwn o litrau o ddŵr yfed y dydd

1.5 miliwn o dunelli o bren gwyrdd y flwyddyn, sy'n gwneud adeiladu'n haws ac yn rhatach

14 miliwn o dunelli o agregau y flwyddyn, ar gyfer adeiladu a defnyddiau eraill

8,919 o oriau gigawatt o ynni o ffynonellau adnewyddadwy, a'r ffigwr hwnnw'n codi, gan greu diwydiant ynni adnewyddadwy sy'n cyflogi 2,000 o bobl

410 miliwn o dunelli o garbon a gaiff ei storio mewn pridd

£2,870 miliwn mewn twristiaeth i Gymru

28% o'r oedolion yn cyrraedd y lefel a argymhellir o ran gweithgarwch corfforol trwy weithgareddau awyr agored

£18.2 miliwn o fanteision iechyd i bobl o ganlyniad i gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru

£840 miliwn a **30,000 o swyddi** o sector yr amgylchedd hanesyddol

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016)

Pennod 3: Yr achos dros newid

Mae aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod ein ffermwyr a'u cadwyni cyflenwi'n cael budd o fynediad at farchnad sy'n fawr iawn, heb dariffau a heb ffrithiant. Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch perthynas fasnachu newydd y DU ond mae'n amlwg bod angen inni roi cymorth mewn ffordd wahanol i helpu i feithrin sector rheoli tir cryf. Nid yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin wedi'i dargedu'n ddigonol i gefnogi rheolwyr ein tir ar ôl Brexit. Felly byddwn yn achub ar y cyfle a gynigir gan Brexit i ail-ddylunio'r cymorth er mwyn gwarchod a gwella'r gwerth y mae ein tir yn ei ddwyn i Gymru.

3.1 Yr UE yw partner masnachu unigol mwyaf y DU ar gyfer cynnyrch amaethyddol, bwyd a choedwigaeth, trefn a gaiff ei hwyluso gan ein haelodaeth o'r farchnad sengl a'r undeb tollau sydd wedi darparu mynediad sydd heb dariffau a threfn weinyddol sydd wedi'i haddasu ar gyfer marchnad fawr iawn. Mae hefyd yn cynnig ffynhonnell bwysig iawn o lafur i rannau penodol o'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig yn y proffesiwn milfeddygol ac mewn cwmnïau prosesu cig.

3.2 Mae **Pwynt Cefndir C** yn crynhoi sefyllfa fasnachu gyfredol y prif is-sectorau yng Nghymru mewn perthynas â'r UE. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n fawr ond, i roi ymdeimlad o raddfa yng Nghymru, mae traean o'r cig oen a gynhyrchir yng Nghymru'n cael ei allforio i Ewrop a thua 90% o allforion bwyd a diod Cymru'n cael eu gwerthu i wledydd yn y farchnad sengl.



Dadansoddiad o'r senarios

3.3 Mae posibilrwydd y bydd Brexit yn achosi gwyriad digynsail oddi wrth y fframwaith masnachu y mae busnesau ffermio a'u cadwyni cyflenwi'n gweithio ynddynt ar hyn o bryd.

3.4 Y ffordd orau o archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau i wahanol is-sectorau yw trwy ystyried gwahanol senarios masnachu. Roedd is-grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet ar Dystiolaeth a Senarios a dadansoddiad FAPRI (Y Sefydliad Ymchwil Polisi Bwyd ac Amaethyddiaeth) a gyflwynwyd yn ein dogfen gynharach, "*Brexit a masnach*", ill dau'n defnyddio'r dull hwn fel y sail i'w hasesiadau.

3.5 Mae astudiaeth FAPRI yn nodi tri senario, a gaiff eu crynhoi yn y tabl isod. Mae'r senarios yn esbonio effaith bosibl trefniadau masnachu gwahanol. Caiff y rhain eu cymharu â'r llinell sylfaen bresennol er mwyn amlygu newidiadau bosibl gan ddibynnu ar y modd y bydd y DU yn gadael yr UE.

3.6 O ystyried y pwyslais gan fwyafrif ffermydd Cymru ar gynhyrchu cynnyrch llaeth, cig eidion a chig defaid mae'n rhesymol tybio y bydd yr effeithiau'n cael eu teimlo o leiaf yr un mor gryf yng Nghymru ag yng ngweddill y DU. Yn wir, ar gyfer cig defaid gall yr effeithiau fod yn gymesur uwch o ystyried y gyfran gymharol o weithgareddau cig defaid yng Nghymru. Daeth yr is-grŵp Bord Gron ar Dystiolaeth a Senarios i gasgliadau tebyg â gwaith modelu FAPRI. Mae eu hadroddiad hwy yn archwilio'r effeithiau bosibl yng Nghymru mewn mwy o fanylder ar draws ffermio, pysgota, coedwigaeth, bwyd a'r amgylchedd a'r goblygiadau ar gyfer cymunedau gwledig.¹⁰

Senario 1:

Cytundeb Masnach Rydd wedi'i Deilwra'n Arbennig gyda'r UE

3.7 Dan y senario hwn, nid yw Cytundeb Masnach Rydd cynhwysfawr ac wedi'i deilwra'n arbennig gyda'r UE yn achosi rhyw lawer o newid i'r sefyllfa weiddiol, gan alluogi "busnes fel arfer" i barhau heb unrhyw dariffau rhwng y DU a'r UE.

3.8 Efallai y bydd y senario hwn yn galluogi'r DU i ddatblygu bargeinion masnach trydedd wlad pellach dros amser, gyda hynny o bosibl yn creu cyfleoedd ar gyfer marchnadoedd allforio newydd ar gyfer ein cynnyrch amaethyddol. Gan ddibynnu ar natur y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE, mae'n bosib y gwnaiff y cytundeb hyn â thrydydd wledydd wneud Cymru'n fwy agored i effeithiau grymoedd allanol y farchnad.

¹⁰ <https://www.afbini.gov.uk/publications/afbini-report-post-brexit-trade-agreements-uk-agriculture>

Senario 2:

Gadael dan reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) fel y Wlad Fwyaf Ffafriol

3.9 Dan y senario hwn, os yw'r DU yn gadael yr UE 'heb daro bargaen' bydd yn newid yn awtomatig i fasnachu dan reolau'r WTO gyda'r holl wledydd nes bod Cytundebau Masnach Rydd yn cael eu llofnodi. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol allforio a mewnfario nwyddau i'r UE a thrydedd wledydd dan reolau'r 'Wlad Fwyaf Ffafriol' gydag ystod o dariffau ar y nwyddau hynny. Mae'r tariffau ar gyfer cynnyrch anifeiliaid gyda'r uchaf yn yr ystod.

3.10 Mae adroddiad FAPRI yn awgrymu y gallai tariffau'r Wlad Fwyaf Ffafriol ar fewnforion bwyd gael effaith trwy wneud y mewnfario hynny'n anghystadluel o'i gymharu â chynhyrchu cartref. Mae hyn yn creu'r potensial am gyfleoedd i gynhyrchwyr domestig ateb y galw yn lle cynnyrch wedi'i fewnfario. Dangosir effaith hynny gan y cynnydd rhwng 15% a 30% yn y prisiau. Gallai ffermwyr eidion, er enghraifft, brofi cynnydd o ryw draean yng ngwerth yr allbwn wrth i fewnforion cig eidion ostwng.

3.11 Mae'r senario hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod risgiau sylweddol i is-sectorau sy'n ddibynnol ar allforion. Fel a nodir yn nadansoddiad FAPRI:

“mae cyflwyno tariffau'r Wlad Fwyaf Ffafriol yn lleihau chystadleurwydd ac felly

meintiau allforion y DU i'r UE, sy'n arwain at gynnydd yn y cyflenwadau sydd ar gael yn y farchnad gartref. Mae'r effaith negyddol ar brisiau'n arbennig o amlwg yn y sector defaid oherwydd y symiau mawr o gig defaid sy'n cael eu hallforio i'r UE o'r DU ar hyn o bryd. Mae'r gostyngiad a ragwelir mewn prisiau'n cael effaith ddirwasgedig ar gynhyrchu cig defaid yn y DU ac felly ar werth yr allbwn”.

3.12 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i amaethyddiaeth yng Nghymru gan fod cyfran fawr o gig defaid o Gymru'n cael ei hallforio i'r UE. Mae'r senario'n awgrymu bod gosod tariffau'r Wlad Fwyaf Ffafriol yn cynyddu'r costau i brynwyr yn yr UE yn sylweddol, gan achosi gostyngiad sydyn mewn allforion ac arwain at orgyflenwad cartref, gyda'r sefyllfa'n cael ei dwysau am fod proseswyr yn colli'r darnau o gig defaid sy'n amhoblogaidd ymhlith defnyddwyr yn y DU. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gydbwysedd carcassau ac yn gwneud lladd defaid a phrosesu cig defaid yn weithgaredd llai hyfyw.

3.13 Gallai gostyngiadau yn lefelau cynhyrchu cig defaid gael effeithiau dilynol hefyd o ran maint y sector prosesu os na ellir cynnal trwybwn economaidd trwy gynnydd mewn meysydd eraill megis eidion. Heb y cynnydd hwn mewn cynnyrch arall, byddai angen i ffermwyr mewn rhai ardaloedd gludo anifeiliaid ymhellach i gael eu lladd a'u prosesu, gan leihau eu cystadleurwydd ymhellach mewn marchnad â gorgyflenwad.

Senario 3:

Rhyddfrydoli masnach unochrog

3.14 Mae'r senario hwn yn dychmygu bod Llywodraeth y DU wedi defnyddio'i gallu i ostwng tariffau ar fewnforio ohoni'i hun er mwyn cadw codiadau yng nghost bwyd wedi'i fewnfario mor isel â phosibl.

3.15 Mae natur yr effeithiau ar wahanol sectorau amaethyddol yn y DU yn y senario hwn yn dibynnu ar ba mor agos y mae prisiau'r DU at brisiau bwyd byd-eang. Mae Ffigur 1 yn dangos sut y byddai pob sector yn dioddef yn y senario hwn, gyda chig eidion a chig defaid dan anfantais arbennig am fod cynhyrchwyr y nwyddau hynny yng ngweddill y byd yn gystadluel iawn o ran eu costau. Mae'r adroddiad yn amlygu y byddai cynnydd mawr mewn mewnfario y cynnyrch hwn yn gostwng prisiau i'r defnyddiwr yn sylweddol ond ar draul rhoi pwysau sylweddol iawn ar bob sector amaethyddol, yn enwedig ffermwyr defaid ac eidion.

Tabl 2: Tri senario masnachu gwahanol o'i gymharu â'r llinell sylfaen

**Cytundeb Masnach Rydd
wedi'i Deilwra'n Arbennig
gyda'r UE (1)**

- Y DU yn cadw mynediad heb dariff na chwota i'r UE a'r UE yn cadw mynediad heb dariff a heb gwota i'r y DU
- Y DU yn cadw strwythur tariffau'r UE gyda gweddill y byd
- Costau hwyluso masnach o 5% ar fasnach rhwng y DU a 27 yr UE


**Tariff Ragosodedig Sefydliad
Masnach y Byd (2)**

- Tariffau y Wlad Fwyaf Ffatriol ar fewnforion o'r UE
- Cadw Cwotâu Tariff o 3ydd wledydd
- Tariffau y Wlad Fwyaf Ffatriol ar allforion o'r DU sy'n mynd i'r UE
- Dim newid yn y strwythurau tariffau ar gyfer allforion i weddill y byd
- Costau hwyluso masnach o 8% ar fasnach rhwng y DU ar 27 yr UE

Rhyddfrydoli Masnach Unochrog (3)

- Dim tariffau ar fewnforion i'r DU o wledydd yr UE a gweddill y byd
- Tariffau y Wlad Fwyaf Ffatriol ar allforion y DU i'r UE
- Dim newid yn y strwythurau tariffau ar gyfer allforion i weddill y byd
- Costau hwyluso masnach o 8% ar fasnach rhwng y DU a 27 UE

Ffigur 1: Canran y newid a ragwelir ym mhrisiau cynwyddau, cynhyrchaint a gwerth allbynnau'r DU o'u cymharu â llinell sylfaen 2025



Ffynhonnell: www.afbini.gov.uk/publications/afbi-report-post-brexit-trade-agreements-uk-agriculture

Pwysigrwydd y tymor hir

3.16 Enghreifftiol yw pob un o'r tri senario, ond maent yn amlygu'r effeithiau posibl ar gynhyrchwyr yn y DU gan ddibynnu ar y telerau y caiff y DU wrth adael yr UE.

3.17 Unwaith y daw trefniadau pontio i ben, perthynas fasnachu'r DU â'r UE yn y tymor hir fydd yn pennu yn y bôn faint o gystadleuaeth fyd-eang y bydd ein cynhyrchwyr yn ei hwynebu a chydbwysedd cyfleoedd a risgiau i reolwyr ein tir. Fel y dengys Ffigur 1, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y senarios; yn arbennig mae perthynas fasnachu agos â'r UE yn y dyfodol (fel a enghreifftir yn senario 1) yn creu effeithiau posibl gwahanol iawn ar amaethyddiaeth o'u cymharu â'r rhai a gaiff eu creu gan senario 3.

3.18 Bydd y risgiau a'r cyfleoedd a wynebir ymhen dwy flynedd yn wahanol i'r rhai a wynebir ymhen deng mlynedd. Rhaid inni roi cymorth priodol i reolwyr tir a fydd yn galluogi busnesau i addasu i'r newidiadau.

3.19 Bydd yr effeithiau yn y pen draw'n dibynnu ar sefyllfa fasnachu Llywodraeth y DU gyda'r UE a thrydydd wledydd. Mae amaethyddiaeth yn aml yn bwynt negodi allweddol a dadleuol wrth drafod cytundebau masnach rydd a gallai'r dewisiadau a wneir gael effeithiau sylweddol yn y sectorau amaethyddol a bwyd a diod yn enwedig. Mae hyn yn dwyn risgiau a chyfleoedd i reolwyr tir wrth i farchnadoedd newydd agor, tra gallai'r cytundebau hefyd olygu bod mwy o nwyddau wedi'u mewnfurio'n dod i mewn i'r farchnad gartref. Mae negodiadau am y Cwotâu Tariff yn esgor ar risgiau penodol, gan y gallent arwain at fewnfurio mwy o gynnyrch amaethyddol i'r DU ar y tariff is.

3.20 Agwedd Llywodraeth Cymru at fasnach ryngwladol yw roi blaenoriaeth i barhau'n aelod o Farchnad Sengl yr UE ac o undeb tollau gyda'r UE o leiaf am y tro gan mai gyda'r UE y mae Cymru'n masnachu fwyaf. Fodd bynnag, rydym yn derbyn yn llwyr nad yw economïau a phatrymau masnachu byd-eang byth yn llonydd a bod cyfleoedd masnachu sylweddol y tu allan i Ewrop. Bydd meithrin perthynas

newydd â gwledydd o amgylch y byd yn bwysig, ond dylid ystyried bod hynny'n ategu ac nid yn disodli'r berthynas â'r UE.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru

3.21 Mae'r ystod hon o newidiadau posibl i'r amgylchedd masnachu'n codi cwestiynau arwyddocaol o ran sut orau i gefnogi rheolwyr tir Cymru, yn ystod y cyfnod pontio ac ar lefel fwy parhaol.

3.22 Yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi pennu'r fframwaith ar gyfer polisi amaeth a gwledig yng Nghymru am y 45 mlynedd ddiwethaf trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Darperir oddeutu £300m y flwyddyn o gymorth ar gyfer ffermio a datblygu gwledig mewn dwy ffordd (Colofn 1 a Cholofn 2) gyda threfn reoleiddio (trawsgydymffurfio) yn sail iddo.


3.23 Fel y dengys **Pwynt Cefndir D**, mae dwy ran o dair o'r busnesau ffermio yn ôl nifer yn cynhyrchu 5% o'r allbwn safonol ar 15% o'r tir. O'r holl fusnesau ffermio, mae bron i 60% o'r ffermydd yng Nghymru'n ymgeisio am daliadau cymorth y PAC ac yn eu cael. Ffermydd bychain yw'r rhan fwyaf o ffermydd nad ydynt yn eu hawlio. O'r rhai sy'n eu hawlio, mae'r taliadau'n gymesur fwy neu lai â maint daliadau tir.

3.24 Mae gan gymorth trwy'r PAC rôl arwyddocaol yn hyfywedd ffermydd canolig a mawr. Yn arbennig, mae incwm ffermydd eidion a defaid, ar gyfartaledd, yn ddibynnol iawn ar gyllid o'r BPS a Glastir. Mae wedi galluogi llawer o ffermydd i barhau i weithredu, yn enwedig ar yr ucheldir.

3.25 Fel y dengys Ffigur 3, y BPS, ar gyfartaledd, yw prif elfen incwm busnes ffermydd. Ar gyfer ffermydd sy'n hawlio, mae cyfraniad net cyfartalog gweithgareddau amaethyddol sy'n seiliedig ar fasnachu'n fach iawn. Mae hon yn ffaith sy'n wir ers tro byd ac nid yw'n ddim gwahanol i rannau eraill o'r DU. Mae amlygrwydd yr is-sectorau hyn yng Nghymru'n cynyddu ei harwyddocâd.

Ffigur 2: Nifer y ffermydd, trosiant busnesau a thir ffermio – yn ôl maint economaidd y fferm, Cymru 2016

Mae'r grwpiau maint a ddefnyddir yn y siart hon yn dangos busnesau fferm â throsiant bras (allbwn safonol)



Ffynhonnell: Arolwg Amaethyddol Mehefin, 2016

3.26 Fodd bynnag, mae cyfanswm y taliadau'n gyfran gymharol fach o drosiant. Incwm masnachol yw prif elfen trosiant ffermydd ond mae costau sylweddol yn golygu mai dim ond cyfraniad bach (neu gyfraniad negyddol) y mae'n ei wneud at incwm net. Byddai newid cymharol fach mewn trosiant neu gostau'n cael effaith fawr ar yr incwm net. Gan hynny, gallai newidiadau i drosiant a chostau fod â'r potensial i newid y "ddibyniaeth" ganfyddedig ar gymorth gan y PAC. Archwilir hyn ymhellach ym Mhennod 5.


3.27 Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gwahaniaeth sylweddol yn aml rhwng incwm busnes net ffermydd ac incwm aelwydydd ffermydd. I ffermydd bychain, mae incwm busnes net ffermydd (ac felly taliadau cymorth) yn gyfran lai o'r incwm nag incwm nad yw'n gysylltiedig â'r fferm.

Pam nad yw'r PAC yn iawn i Gymru

3.28 Mae'r cyfiawnhad polisi dros y PAC yn gymhleth ac mewn rhai agweddau mae'n gwrthddefwedd ei hun o ystyried y ffordd y mae'n ffrwyth proses gymhleth o negodi rhwng holl Aelod-Wladwriaethau'r UE – y mae gan bob un ohonynt sectorau amaethyddol a chymunedau gwledig gwahanol iawn. Yn wir, mae'r cynigion diweddaraf ynghylch diwygio'r PAC gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r diffygion a ddisgrifir isod. Mae gwleidyddion y DU ar bob ochr wedi bod yn herio effeithlonrwydd a gwerth y polisi am beth amser.

3.29 Ar y cyfan, y sail resymegol dros y PAC yw rhoi cymhorthdal incwm i ffermydd trwy gyllid Colofn 1 a chyllid Datblygu Gwledig (gan gynnwys amaeth-amgylchedd) trwy Golofn 2. Fel a nodir uchod, mae mwyafrif llethol yr incwm yn mynd tuag at gymhorthdal incwm trwy'r BPS. Barn Llywodraeth


Ffigur 3: Incwm cyfartalog ffermydd a chyfran ei elfennau gwahanol yn ôl maint economaidd y fferm



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm 2017

Ffigur 4: Incwm cyfartalog busnesau fferm fel cyfran o incwm aelwydydd

Aelwyd gyfartalog
£ / aelwyd



Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm 2017

Cymru yw nad yw'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) wedi bod yn cael ei dargedu'n ddigonol i wireddu'r holl fanteision y gallai tir Cymru eu cynhyrchu.

3.30 Mewn termau economaidd, nid yw'r BPS wedi gwneud digon i wella cynhyrchiant ffermydd (yr elw net am bob uned gynhyrchu). Mae hyn yn bwysig am fod ffermydd yng Nghymru'n llai fel rheol na chyfartaledd y DU; yn arbennig mae patrymau dosbarthiad ffermydd, tir ac allbwn yn wahanol iawn. Ar ben hynny, mae gwerth amaethyddol ychwanegol ar y cyfan yng Nghymru wedi lleihau dros y cyfnod dan sylw, mewn termau absoliwt ac fel cyfran o'r economi. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i Gymru ac mae'r cyfartaleddau'n celu amrywiadau sylweddol mewn cynhyrchiant ar draws is-sectorau ac yn wir rhwng ffermydd unigol – ceir enghreifftiau nodedig o arfer hynod gynhyrchiol a chynaliadwy.

3.31 Mewn termau amaethyddol, nid yw'r PAC wedi gwneud digon i ystyried manteision a chanlyniadau ehangach rheoli tir. Yn arbennig, mae'r canlynol yn wir:

- mae wedi dwyn canlyniadau cymysg i amgylchedd naturiol Cymru;
- nid yw wedi gwneud rhyw lawer i ymateb i her datgarboneiddio – daw 10% o allyriadau Cymru o'r sector amaethyddol, yn enwedig da byw; ac
- mae wedi atgyfnerthu'r gwahanu rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth gan fod cyfyngiadau yn y BPS ar gymhwyster coetiroedd i gael cyllid yn rhwystr i weithgarwch plannu newydd.

3.32 Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw taliadau'r BPS wedi'u bwriadu i wneud ffermydd yn fwy cynhyrchiol na helpu i ddwyn manteision ehangach. Mae'r elfennau hyn ynghyd â chymorth i gymunedau gwledig a'r amgylchedd yn cael eu hystyried gan gynlluniau Colofn 2. Yn wir, Cymru yw'r weinyddiaeth gyntaf a'r unig weinyddiaeth yn y DU i drosglwyddo'r uchafswm a ganiateir o Golofn 1 i Golofn 2. Mae hyn wedi dwyn nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, fel yr ydym yn nodi ym Mhennod 6, cyfyngwyd ar ein llwyddiant ar y cyfan gan gymhlethdod gweinyddol a diffyg cyllid.

Goblygiadau ar gyfer polisi

3.33 Mae gadael yr UE yn golygu y bydd y cyfrifoldeb am bennu polisi rheoli tir yn gorwedd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid inni ddefnyddio'r pwerau newydd hyn i ymateb i oblygiadau Brexit. Heb ymyrraeth briodol, gall ysgogiadau economaidd arwain at newidiadau i'n tir nad ydynt er budd Cymru. Gall unrhyw beth sy'n newid economeg ffermio arwain at newid mewn defnydd tir a gall newid o'r fath gael effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol.

3.34 Mae angen inni gynorthwyo rheolwyr tir i reoli eu tir mewn ffordd sy'n gwella'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a werthfawrogir gan gymdeithas. Ni fyddai mynd ati'n syml i ymgorffori'r PAC yng nghyfraith Cymru'n gwneud hynny. Yn arbennig, nid yw'r BPS wedi'i strwythuro i wrthbwysio effaith ariannol y risgiau sylweddol negyddol i'r amgylchedd masnachu y mae rhai senarios Brexit yn esgor arnynt. Mae'r PAC wedi'i fwriadu ar gyfer rheolwyr tir yn yr UE; y tu allan i'r UE, mae angen system gymorth wahanol.

3.35 Mae Brexit yn golygu ei bod, am y tro cyntaf, yn bosibl sefydlu rhaglen newydd sy'n adlewyrchu anghenion Cymru'n llawn. Dyma sut y gallwn wireddu ein gweledigaeth i gynyddu i'r eithaf y manteision ehangach y gall tir a rheolwyr tir Cymru eu dwyn i bobl Cymru.

Pwynt Cefndir C: Sefyllfa masnachu prif is-sectorau Cymru

Mae amaethyddiaeth yng Nghymru'n rhan fawr o'r cadwyni cyflenwi yn y DU gyfan. Mae da byw, cynnyrch a nwyddau'n symud yn rhydd rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae Cymru o ystyried y cyfan yn cynhyrchu cyfran sylweddol i gig coch a llaeth y DU. Mae ganddi 29% o ddiadell fagu'r DU, tuag 13% o'i buchod godro a thua 11% o'r fuches eidion.

Mae'r farchnad allforio wedi dod yn fwyfwy pwysig i ddiwydiant cig coch Cymru, gan fod hyn yn helpu i gynnal cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw ac yn sicrhau cydbwysedd o ran carcasau. Sylfaen masnach allforio Cymru yw ei henw da am gynnyrch o ansawdd da sy'n seiliedig ar arferion da o ran iechyd a lles anifeiliaid, iechyd pobl a safonau amgylcheddol. Er mwyn cynnal y statws hwn mae angen i Gymru barhau i ariannu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â TB gwartheg mewn modd trylwyr.

Mae bod yn un o 28 yr UE wedi caniatáu i'r DU gael mynediad dirwysr at farchnadoedd cig coch sefydledig ledled y cyfandir, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer allforion cig defaid. Hefyd, bu marchnad gynyddol yn yr UE ar gyfer allforion eidion wedi i'r DU gael mynediad drachefn ar ôl y sancsiynau oherwydd BSE.

Mae'n well gan ddefnyddwyr yn y DU ddarnau penodol o gig oen, megis y goes, a chaiff y diwydiant cynhyrchu domestig yn y DU ei ategu gan fewnforion cig defaid, y rhan fwyaf ohonynt o Seland Newydd (74% o holl fewnforion cig defaid y DU yn 2015) ac Awstralia (15% yn 2015). Mae darnau eraill sy'n llai poblogaidd ar gyfer y farchnad gartref yn cael eu hallforio dramor.

Y prif gyrchfan ar gyfer allforion cig eidion yw gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn 2015 cafodd 93% o gyfanswm allforion cig eidion a chig llo'r DU (heb gynnwys offal) ei gludo i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Yn yr un modd daw cyfran uchel o fewnforion cig eidion y DU o'r UE (91% o gyfanswm y fewnforion yn 2015).

Yn y sector llaeth, mae gan y DU ddiffyg masnachu o tua £1.1bn yn 2015, gostyngiad o ryw £120m ers 2014. Mae'r fantol fasnachu wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad mewn fewnforion a chynnydd mewn allforion. Mae bron holl fewnforion y DU yn dod o'r UE ac yn 2015 roedd tua 90% o allforion y DU yn rhai i'r UE.

Mae'r llaeth a gynhyrchir yng Nghymru yn cyfrif am tua 12% o'r llaeth a gynhyrchir yn y DU. Mae bron i hanner y llaeth hwn yn llaeth nad yw'n cael ei brosesu yng Nghymru. Mae'r llaeth dros ben yn cael ei gludo allan o'r wlad, a dibynnir yn fawr ar Loegr i'w brosesu ac i ychwanegu at ei werth.

Mae'r DU yn fewnforiwr net o ran cynnyrch coedwigoedd gyda diffyg masnachu net yn 2014 mewn pren, mwydion coed a phaneli pren o fwy na £3 biliwn yn ôl cyfraddau heddiw.

Ffynhonnell: AHDB

Pwynt Cefndir D: Elfennau'r PAC yng Nghymru

Rhoddir cymorth incwm uniongyrchol dan Golofn 1 trwy Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). Mae hyn yn cynrychioli 85% o'r gwariant ar amaethyddiaeth yng Nghymru (£235m yn 2017) ac yn darparu taliad cyffredinol ar gyfer ffermydd sydd â hawliau (yn seiliedig ar daliadau a chyfraddau cynhyrchu hanesyddol). Nid yw busnesau coedwigaeth a rheolwyr tir eraill yn gymwys i gael cymorth. Mae'r BPS ar fin cael ei droi'n daliad unffurf, seiliedig ar arwynebedd. O ganlyniad, mae ffermwyr wedi profi newidiadau sylweddol yn eu taliadau dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (RhDG) yw Colofn 2. Cymru yw'r unig weinyddiaeth yn y DU i fod wedi trosglwyddo uchafswm a ganiateir o Golofn 1 i gefnogi'r rhaglen Colofn 2, gan gydnabod pwysigrwydd rhoi cymorth wedi'i dargedu a sicrhau canlyniadau penodol i Gymru. Mae'r RhDG yn cynnwys cynlluniau amrywiol i wella'r amgylchedd, cynyddu cynhyrchiant ffermio a choedwigaeth, a thyfu'r economi wledig. Caiff ei chydariannu gan Lywodraeth Cymru ond mae'n ofynnol i'r holl brosiectau fod yn gyson â blaenoriaethau datblygu gwledig Ewropeaidd.

Cynlluniau amaeth-amgylchedd (Glastir) yw elfen wariant fwyaf y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae Glastir yn cefnogi ac yn cymhell camau gweithredu i wella'r amgylchedd. Mae cynlluniau lefel sylfaenol ar gael i bawb ac yn gwobrwyo nwyddau amgylcheddol (er enghraifft, perthi a phyllau).

Mae cynlluniau eraill yn cefnogi datblygiad economaidd y sectorau amaethyddol, coedwigaeth a bwyd trwy fuddsoddi cyfalaf a mesurau datblygu ehangach megis trosglwyddo gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant. Maent hefyd yn amcanu at gefnogi gweithgarwch datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned y tu hwnt i ffermio, yn enwedig trwy gynllun LEADER.

Ar sail arwynebedd, mae coedwigoedd a choetiroedd yn gorchuddio bron i un rhan o bump o dir Cymru. Fodd bynnag, nid yw coedwigoedd yn cael unrhyw daliad dan Golofn 1 a dim ond cymorth cyfyngedig y maent yn ei gael trwy Golofn 2. Ar y cyfan, mae coedwigoedd Cymru a'u rheolwyr yn cael tua 2% o'r cymorth sydd ar gael trwy'r PAC.

Ffynhonnell: Rural Payments Wales

Mae diwygio'n cynnig y cyfle inni wireddu ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru. Mae gennym bum egwyddor allweddol a fydd yn llywio'r cymorth yn y dyfodol a'r rhain sy'n sail i'r Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cael ei gynnig. Rydym yn cynnig bod y rhaglen yn cynnwys dau gynllun mawr a hyblyg: y Cynllun Cadernid Economaidd a'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Er mwyn iddynt fod yn wirioneddol effeithiol mae arnom angen setliad cyllid teg ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu mwy o eglurder ar fyrder.

4.1 Mae Pennod 2 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru. Mae Brexit yn gyfle i'w gwireddu trwy newid y ffordd yr ydym yn cefnogi rheolwyr tir Cymru.

4.2 Mae gwaith y Grŵp Bord Gron ar Brexit yn dangos yn glir y bydd peidio â newid polisi'n golygu y bydd ffermwyr ac ardaloedd gwledig yn waeth eu byd. Byddai dim ond cynnal y polisi cyfredol yn wyneb y chwyldro tebygol a fydd yn cael ei achosi gan Brexit yn fethiant polisi: ni fyddai'n gwneud rhyw lawer neu unrhyw beth o gwbl i helpu rheolwyr tir i baratoi ar gyfer Brexit ac ymaddasu iddo a byddai'n golygu ein bod yn colli cyfle unigryw ar gyfer newid.

Pum egwyddor ar gyfer diwygio

4.3 Mae angen inni ddylunio dyfodol ar gyfer tir Cymru sy'n mynd i'r afael â gwirioneddau economaidd ac yn integreiddio defnydd tir â'n huchelgeisiau ehangach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd mewn modd gwirioneddol. I'r perwyl hwnnw, yn gynharach eleni fe nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig bum egwyddor fydd yn sail i'r broses ddiwygio yng Nghymru.

Egwyddor 1

4.4 Yr egwyddor gyntaf yw bod yn rhaid inni **gadw ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill ar y tir**. Er mwyn dwyn y budd mwyaf posibl i'r gymdeithas ehangach, rhaid i dir gael ei reoli'n weithredol gan y rhai sydd â'r mwyaf o allu i wneud hynny. Dyma beth sydd orau i'n hamgylchedd a'n cymunedau hefyd. Nid yw hyn yn golygu na ddylai defnydd tir a'r bobl

sy'n ei reoli newid dros amser, ond rhaid inni osgoi lleihau gweithgarwch – neu gefnu hyd yn oed – ar ein hardaloedd gwledig. Yn hytrach, dylem achub ar y cyfle hwn i'w gwneud yn fwy bywiog.

Egwyddor 2

4.5 Yn ail, **mae cynhyrchu bwyd yn hollbwysig** i'n cenedl ac mae bwyd yn dal i fod yn gynnyrch pwysig sy'n deillio o'n tir. Mae hynny'n golygu parhau i gefnogi gweithgareddau economaidd lle mae hynny'n gynaliadwy ac yn hyfyw o safbwynt ariannol.

Egwyddor 3

4.6 Ein trydedd egwyddor yw bod yn rhaid inni wneud hyn mewn ffordd sy'n creu **diwydiant rheoli tir ffyniannus a chydnerth yng Nghymru** – yn enwedig amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae arnom angen hyn ni waeth beth fydd natur Brexit. O ystyried yr ansicrwydd sylweddol, rhaid i'r system gymorth fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd ar ôl Brexit.

Egwyddor 4

4.7 Mae diwygio hefyd yn gyfle arwyddocaol i gynyddu'n ddramatig y gwasanaethau y gall cymdeithas yng Nghymru eu cael o'n tir. Ac felly ein pedwaredd egwyddor yw y bydd **cymorth yn y dyfodol yn cwmpasu gweithgareddau i ddarparu nwyddau cyhoeddus ychwanegol o'r tir**. Mae cyfoeth ac amrywiaeth tirwedd Cymru'n golygu nad oes prinder nwyddau cyhoeddus i'w caffael – o aer glân, i reoli llifogydd, i gynefinoedd gwell, i iechyd y cyhoedd ac addysg. Nid oes rheswm pam na all yr

un fferm a'r un ffermwr gynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus – mewn nifer o achosion maent eisoes yn gwneud hynny.

There is no reason why the same farm and same farmer cannot produce both food and public goods – in many cases they already do.

Egwyddor 5

4.8 Yr egwyddor olaf yw y dylai'r **holl reolwyr tir allu manteisio ar gynlluniau newydd**; ni fyddwn yn cyfyngu ein cymorth i'r rheini sy'n derbyn cyllid presennol y PAC. Ond efallai y bydd angen i reolwyr tir wneud pethau'n wahanol yn gyfnewid am gymorth. Dyma'r unig ffordd y gallwn sicrhau bod ein tir yn dwyn manteision gwell i holl bobl Cymru. Dyma hefyd y ffordd orau o gyfiawnhau gwariant cyhoeddus yn y rhan hanfodol hon o fywyd yng Nghymru.

Y Rhaglen Rheoli Tir newydd

4.9 Ar y cyfan, mae'r egwyddorion yn cyflwyno ymdeimlad cryf o "rywbeth am rywbeth", egwyddor gyfrannol ar gyfer ein tir. Mae hyn yn gydnaws â chysyniad y Contract Economaidd yn y "*Cynllun Gweithredu ar yr Economi*". Mae rôl eglur i gymorth gan y Llywodraeth o ystyried graddfa'r newid a'r cyfle. Ond rhaid inni roi cymorth yn y ffordd orau a bydd hynny'n golygu newid sylweddol o'r system gyfredol.

4.10 Dan y PAC, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermydd cymwys trwy daliadau blynyddol y BPS. Fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3, nid yw wedi bod yn ymyrraeth wedi'i thargedu ac yn y bôn taliad am ddal tir ydyw. Mae'n ysgogydd heb ddigon o awch i wella perfformiad economaidd, nid yw wedi'i dargedu'n ddigon da i gadw ffermwyr ar y tir ac nid yw'n cyfrannu'n ddigonol at gryfhau ein hamgylchedd. Hefyd, nid yw RhDG Cymru'n mynd yn ddigon pell. Yn wyneb Brexit, nid yw polisi cyfredol yn cyflawni'r pum egwyddor.

4.11 Felly byddwn yn cyflwyno Rhaglen Rheoli Tir newydd i Gymru a fydd yn disodli cymorth y PAC yn ei gyfanrwydd. Bydd y rhaglen yn rhoi cymorth i wella'r budd y mae Cymru'n ei gael o'r tir.

Yr achos dros gymorth dwbl

4.12 Mae rhesymau da dros gefnogi buddsoddiadau mewn gweithgareddau economaidd sy'n seiliedig ar y tir, yn bennaf bwyd a ffibr, i sicrhau cadernid a chynhyrchiant. Nid yw hyn yn ddim gwahanol i'r rheswm pam fod llywodraethau'n cefnogi busnesau nad ydynt yn fusnesau bwyd ar draws yr economi. Ar ben hynny, yn aml ceir sail resymegol gymdeithasol a chymunedol dros gefnogi ffermwyr o ystyried rôl bwysig ffermydd yn y rhannau o Gymru sy'n fwyaf tenau eu poblogaeth. Er mai bwyd yw'r ffocws clir, mae sail resymegol debyg yn berthnasol i weithgareddau eraill sy'n seiliedig ar y tir.

4.13 Er mwyn galluogi rheolwyr tir i weithredu mewn amgylchedd masnachu allanol yn y dyfodol, byddwn yn rhoi cymorth economaidd amrywiol wedi'i dargedu i'r rhai sydd â'r potensial i fod yn hyfyw. Y nod yn y pen draw yw helpu busnesau rheoli tir i sefyll ar eu traed eu hunain.

4.14 Ochr yn ochr â hyn, mae gan dir Cymru y capasiti i gynnal llawer o bethau yn ogystal â chynnyrch economaidd, er enghraifft amsugno carbon, gwella ansawdd dŵr, mwy o fioamrywiaeth, gwella iechyd y cyhoedd trwy fynediad at weithgareddau awyr agored, atal llifogydd, cymorth addysgol a rheoli ein treftadaeth.

4.15 Mae'r rhain yn bethau a all ddwyn budd i holl bobl Cymru ac nid yw'r sector preifat, i raddau helaeth, yn eu cyflawni ar hyn o bryd. Mae'r rhain hefyd yn bethau nad oes marchnad sefydledig ar eu cyfer; maent felly'n perthyn i'r diffiniad o 'nwyddau cyhoeddus'. Trwy helpu i gynhyrchu nwyddau cyhoeddus ar y tir, ein hamcanion yw:

- darparu ffrwd incwm newydd werthfawr ar gyfer rheolwyr tir, sy'n agored i bawb a chyda thaliad am ganlyniadau sy'n seiliedig ar y gwerth y mae cymdeithas yn ei roi arnynt;
- creu cyfraniad sy'n sylweddol ac yn rhoi gwerth am arian o ran mynd i'r afael â rhai o broblemau mwyaf dybryd cymdeithas megis y newid yn yr

hinsawdd, colli cynefinoedd a rhywogaethau, ansawdd aer niweidiol, ansawdd dŵr gwael a mwy o berygl llifogydd

- cryfhau cymunedau gwledig a chyfalaf cymdeithasol cefn gwlad trwy sicrhau bod rheolwyr tir yn cael y cyfle i barhau i reoli eu tir fel rhan o'r gymuned wledig.

4.16 Cefnogi gweithgareddau economaidd a nwyddau cyhoeddus yw'r ffordd orau o wireddu'r weledigaeth a nodir ym Mhennod 2 a'r egwyddorion a nodir uchod. Trwy wneud hynny, byddwn yn creu modd newydd a phwerus i gyflawni rhwymedigaethau ein fframwaith deddfwriaethol unigryw (a ddisgrifir ymhellach ym **Mhwynt Cefndir E**). Am y tro cyntaf, byddwn yn gallu targedu'r holl gymorth at weithgareddau sy'n hybu datblygu cynaliadwy, yn gwireddu nodau llesiant Cymru, yn rhoi cymorth i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn helpu i ddatgarboneiddio. Trwy wneud hynny, byddwn hefyd yn sicrhau bod Cymru'n cyflawni'i rhwymedigaethau rhyngwladol.

Cynlluniau cymorth newydd

4.17 Bydd arnom angen cynlluniau Cymreig penodol i roi cymorth drwydynt. Hyd y gellir, rydym yn bwriadu sefydlu nifer fach o gynlluniau mawr a hyblyg. Yn seiliedig ar y sail resymegol ar gyfer cymorth, rydym yn bwriadu sefydlu dwy brif elfen:

- **Cynllun Cadernid Economaidd** – cymorth ar gyfer gweithgareddau economaidd, yn enwedig cynhyrchu bwyd a choed. Bydd hyn ar ffurf buddsoddiad wedi'i dargedu mewn cyfalaf ffisegol a dynol. Caiff cynnig cychwynnol ei ddisgrifio ym Mhennod 5
- **Cynllun Nwyddau Cyhoeddus** – cymorth i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Bydd hyn ar ffurf taliadau parhaus am ganlyniadau penodol sy'n deillio o reoli tir yn weithredol. Caiff cynnig cychwynnol ei ddisgrifio ym Mhennod 6.

4.18 Mae cysylltiadau cryf rhwng y cynlluniau a bydd angen iddynt fod wedi'u dylunio a chael eu gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd nifer o reolwyr tir yn gallu cael budd o'r ddau gynllun.

4.19 Rhaid inni sicrhau bod y cynlluniau'n ategu ei gilydd. Byddwn felly'n ceisio cyfleoedd cadarnhaol lle gall yr un gweithgareddau gyflawni canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae fferm gynhyrchiol yn aml yn ddibynnol ar adnoddau naturiol o ansawdd da, da byw iach ac ecosystemau iach. Yn yr un modd, dim ond trwy arferion amaethyddol traddodiadol y gellir darparu rhai nwyddau cyhoeddus. Er enghraifft:

- Mae defnyddio anifeiliaid sy'n pori i gynnal adeiladwaith a chyfansoddiad porfeydd yn rhan bwysig o reoli rhai cynefinoedd. Mae gwybod sut a phryd i ddod ag anifeiliaid sy'n pori ar borfa i gyflawni amcan a ddymunir yn rhan annatod o wybodaeth ffermwyr.
- Gall rhoi cymorth i weithredu dull organig o ffermio mewn dalgylch dŵr sensitif fod yn ffordd effeithiol o leihau mewnbynnau allanol ac felly, dros amser, arwain at leihau'r maethynnau sy'n llifo i gyrsiau dŵr.

4.20 Rydym yn ymgynghori ynghylch sut orau i alinio'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynyddu gwerth ein tir i'r eithaf. Yn fwy cyffredinol, rydym yn ymgynghori ynghylch y cynigion a nodir ar gyfer y cynlluniau hyn. Er eu bod yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru (gan dynnu ar waith y Grŵp Bord Gron ar Brexit), rydym yn ymgynghori gan ofyn a oes ffyrdd ychwanegol neu well o wireddu ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru a'r egwyddorion ar gyfer diwygio.

4.21 Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chymorth ar gyfer cymunedau gwledig. Mae'r naill gynllun a'r llall yn cyfrannu at gynnal cymunedau gwledig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, cynigir cymorth penodol trwy gynlluniau'r RhDG megis LEADER ac rydym yn bwriadu archwilio gyda rhanddeiliaid a ddylai'r cynlluniau hyn barhau i weithredu a sut



orau i'w cyflawni. Mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â dyfodol y cronfeydd strwythurol a chymorth economaidd-gymdeithasol, fel a drafodir yn *"Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit"*.

4.22 Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar ddyfodol Trefniadaeth y Farchnad Gyffredin sydd ar hyn o bryd yn cydlynu elfen fach o gymorth ar lefel y DU. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â rheoli cyfnewidioldeb eithafol a thaliadau i ffermwyr mewn sefyllfaoedd argyfyngus.

Mynediad at gynlluniau

4.23 Mae'r bumed egwyddor yn datgan y dylai'r holl reolwyr tir gael y cyfle i fod yn gymwys i gael cymorth. Byddai ei gyfyngu yn unig i'r rheini sy'n derbyn y PAC ar hyn o bryd yn gosod cyfyngiadau artiffisial ar ein gallu i gael y gorau o bob math o dir yng Nghymru.

4.24 Yn arbennig, mae angen inni sicrhau nad yw gwahanol fodolau perchnogaeth, landlord a thenantiaeth yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni canlyniadau a gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer

tir Cymru. Mae rhyw fath o gytundeb tenantiaeth, boed yn Denantiaeth Busnes Fferm dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu'n denantiaeth dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, mewn grym ar gyfer cyfran sylweddol o dir amaethyddol yng Nghymru. Rydym yn ymgynghori ynghylch a oes angen newid polisi er mwyn i'r holl reolwyr tir gael budd o'r ddau gynllun a ddisgrifir ym Mhenodau 5 a 6.


Cyllid teg

4.25 Er bod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cryf i gynnal cymorth, yn amlwg bydd newidiadau i union swm y cyllid y mae ffermwyr unigol a rheolwyr tir eraill yn ei gael ar hyn o bryd. Rhaid inni reoli'r newid hwn mewn modd sensitif ac mae Pennod 8 yn egluro ein cynllun pontio graddol.

4.26 Ni fydd unrhyw newidiadau i daliadau ar gyfer ffermydd heb ymgynghori pellach ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch y cydbwysedd priodol o ran cyllid rhwng y Cynllun Cadernid Economaidd a'r cynllun Nwyddau



Ffigur 5: Y Rhaglen Rheoli Tir a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Cyhoeddus. Bydd dadansoddi pellach, gan gynnwys modelu ac asesiadau o'r effaith, yn ofyniad allweddol. Rhaid i'r broses o ddiwygio polisi fod yn gyson â'r pum egwyddor a ddisgrifir uchod.

4.27 Mae ein gallu i gynllunio'n cael ei rwystro gan y diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cyllid. Er bod Llywodraeth y DU wedi rhoi gwarantiau ar lefel uchel i ddiogelu cyllid cymorth ar gyfer ffermydd hyd at 2022, nid oes eglurder ynghylch maint y cyllid wedi hynny na sut y bydd yn cael ei ddyrannu rhwng y pedair gweinyddiaeth yn y DU.

4.28 Mae Gweinidogion Cymru'n glir na ddylai gadael yr UE olygu unrhyw ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i Gymru. Byddai unrhyw ostyngiad yn peryglu ein gallu i gefnogi'r gweithgareddau yr ydym yn eu hariannu trwy raglenni'r UE ar hyn o bryd – gan gynnwys cynorthwyo ffermwyr i gael y gorau o'n tir.

4.29 Rydym yn galw am system newydd sy'n seiliedig ar reolau ac sy'n sicrhau bod y modd y dyrennir adnoddau yn y DU yn seiliedig yn y dyfodol ar angen cymharol yn hytrach na bod yn seiliedig ar Fformwla Barnett. Rhaid mai'r system newydd hon fydd y sail i benderfynu sut y caiff cyllid yn lle'r PAC ei ddyrannu rhwng y pedair gweinyddiaeth yn dilyn Brexit.

4.30 Pan gawn ein harian yn ôl, bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar reoli tir ac nid ar bethau eraill. Serch hynny, bydd trefniadau cyllido yn y dyfodol yn fwy tryloyw i ddinasyddion Cymru a bydd hyn yn golygu mwy o bwysau i gyfiawnhau gwariant yn y maes hwn. Mae hyn yn gyfle i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd ag ardaloedd gwledig ac i ddangos sut y mae gwariant ar reoli tir yn dwyn manteision i holl bobl Cymru.

Pwynt Cefndir E: Y Rhaglen Rheoli Tir yng nghyd-destun fframwaith deddfwriaethol Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl yn fwy am y tymor hir. Mae'n ei gwneud yn ofynnol inni ddefnyddio dull cydgysylltiedig i atal problemau a chreu Cymru yr ydym ni i gyd am fyw ynnddi, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r saith Nod Llesiant yn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau gan y Llywodraeth a bydd ein dull newydd o reoli tir yn gorfod ei adlewyrchu.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn dangos perthynas y fframwaith hwn ag adnoddau naturiol Cymru, gan dynnu ar yr arfer gorau trwy'r byd. Yr amcan wrth Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) fel a nodir yn y Ddeddf yw cynnal a chryfhau ein hecosystemau a'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy, parhaus. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datgarboneiddio ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Y nod ar y cyfan yw cryfhau ein hecosystemau, ein busnesau a'n cymdeithas i wrthsefyll bygythion.

Caiff rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ei chyflawni gan nifer o gynhyrchion statudol a nodir yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan gynnwys Polisi Adnoddau Naturiol sy'n nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif dueddiadau amgylcheddol dybryd ein hoes, megis y newid yn yr hinsawdd a dirywiad bioamrywiaeth. Mae graddfa a chyflymder gwaith i wireddu'r blaenoriaethau cenedlaethol yn allweddol, ac mae dull uchelgeisiol o ddarparu nwyddau cyhoeddus mewn modd rhagweithiol yn hollbwysig i'w darparu.

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) hefyd yn sefydlu Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) y mae'n rhaid iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a thrwy hynny cryfhau ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yng Nghymru. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol bioamrywiaeth yn ei hystyr ehangach i ecosystemau iach, sy'n weithredol, ac felly'r manteision lluosog yr ydym yn eu cael ohonynt.

Cwestiynau Ymgynghori - 1 i 2 o 20

1. Rydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Ydych chi'n cytuno mai'r cynlluniau hyn yw'r ffordd orau o gyflawni yn unol â'r egwyddorion? Os nad ydych, pa ddewisiadau eraill fyddai orau?
2. A oes angen i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd? Os felly, pa gamau gweithredu fyddai orau?

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi rhoi cymorth ariannol ond i raddau helaeth, bu'n gymorth heb ei dargedu. Byddwn yn creu cynllun newydd i ddarparu buddsoddiadau wedi'u targedu ar gyfer rheolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi, yn arbennig i gefnogi gweithgareddau cynhyrchu bwyd o ansawdd da. Bydd y cynllun yn rhoi cymorth i gynyddu potensial y farchnad, ysgogi gwelliannau mewn cynhyrchiant, arallgyfeirio, gwella trefniadau rheoli risg a gwella arferion cyfnewid gwybodaeth a sgiliau.

5.1 Mae gadael yr UE yn dod â chyfnod o ansicrwydd sylweddol ond hefyd y cyfle polisi i roi cymorth gwell, wedi'i dargedu i helpu busnesau rheoli tir i ddod yn fwy cynhyrchiol a chadarn. Mae'r bennod hon yn nodi pam y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi i helpu busnesau i reoli'r risgiau hyn a gwireddu'r cyfleoedd hyn. Rydym yn cynnig gwneud gwneud hyn trwy gynllun Cadernid Economaidd newydd a fydd yn seiliedig ar y pum egwyddor ar gyfer diwygio a nodir ym Mhennod 4.

Y cyd-destun economaidd

5.2 Fel a nodir ym Mhennod 2, dim ond os oes gennym fusnesau cynaliadwy a chadarn y gallwn wireddu potensial ehangach tir Cymru.

5.3 Yng nghyd-destun polisi economaidd yng Nghymru ar y cyfan, mae "*Ffyniant i Bawb*" yn cydnabod pwysigrwydd cadwyni cyflenwi bywiog, arloesol a chystadleuol i helpu i greu Cymru ffyniannus a diogel, un sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, i gyflawni ffyniant unigol a chenedlaethol.¹¹ Fel a nodir yn y "*Cynllun Gweithredu ar yr Economi*".¹² rydym am i fusnesau gystadlu â hyder mewn amgylchedd economaidd byd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n golygu cynorthwyo busnesau i ddechrau, tyfu a llwyddo. Nid yw busnesau rheoli tir yn wahanol o gwbl.

Perfformiad cyfredol

5.4 Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf yn arbennig, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw'r DU (a thrwy estyniad, Cymru) wedi aros gyfuwch â gwledydd eraill o ran lefelau cynhyrchiant yn y diwydiant amaethyddol (Ffigur 6). O fewn y DU, mae Cymru wedi syrthio'n bellach ar ei hôl hi, er enghraifft gyda lefel sylweddol is o incwm o ffermio yr hectar o dir amaethyddol (Ffigur 7). Mae hwn yn fesur lefel-uchel ac mae gwahaniaethau mewn daearyddiaeth yn egluro rhywfaint o'r amrywiad, ond ein hasesiad ni yw bod Cymru ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill y DU mewn meysydd megis cynhyrchiant.


5.5 Er gwaethaf hyn, mae nifer o enghreifftiau da o fusnesau rheoli tir uchel eu perfformiad yn gweithredu yng Nghymru. Fel unrhyw ddiwydiant, ceir sbectwm o berfformiad. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir gwneud mwy i adnabod y ffyrdd y gellir gwella cynhyrchiant a chystadleurwydd a lledaenu'r gwersi i gynorthwyo pob busnes i wella. Mae'r bwlch presennol mewn perfformiad yn sylweddol a rhaid i'w leihau fod yn ystyriaeth allweddol i ddiwydiant a'r Llywodraeth.

5.6 Canlyneb bwlch mewn perfformiad yw'r potensial i wella. Er y bydd peth amrywiad mewn perfformiad yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn adnoddau naturiol sylfaenol rydym ni o'r farn bod gan lawer o fusnesau botensial sylweddol i wella.


¹¹ Y Strategaeth Genedlaethol: 'Ffyniant i Bawb' - <https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

¹² Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi - <https://gov.wales/topics/businessandconomy/economic-action-plan/?lang=cy>

Ffigur 6: Twf blynyddol Cynhyrchiant yr Holl Ffactorau (TFP) mewn amaethyddiaeth, 1964-2014



Ffigur 7: Cyfanswm incwm ffermio fesul hectar



Ffynhonnell: AHDB, Defra

5.7 Mae'n bwysig casglu tystiolaeth am berfformiad. Fe wnaeth cynllun Cymorth Amodol Cymru ar gyfer busnesau llaeth yn 2017 ddarparu set ddata werthfawr ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n dadansoddi perfformiad yn ein ffermydd llaeth. Ymddengys fod costau'n ffactor arwyddocaol sy'n gwahaniaethu rhwng y chwarteli uchaf ac isaf. Mae'r patrwm mewn gorbenion yn arbennig o drawiadol hefyd, gan fod costau ffermydd sydd yn y chwartel isaf ddwywaith gymaint â chostau'r rhai yn y chwartel uchaf.¹³ Mae'r grwpiau mwyaf proffidiol yn tueddu i fod â chyfran fwy o fuchesi sy'n bwrw eu lloi ar yr un pryd. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymarferiad tebyg ar gyfer y sector cig coch.

5.8 Mae ein busnesau sy'n perfformio orau hefyd yn dangos cydberthynas â safonau uwch o ran iechyd a lles anifeiliaid, gan gydnabod ei bod yn well atal clwyf na'i wella am resymau economaidd a lles. Mae data'r DCA yn dangos bod ffermydd godro yn y chwartel isaf o ran perfformiad yn gwario 50% yn fwy ar gostau milfeddygol a meddyginiaethol ar gyfartaledd o'i gymharu â'r rhai yn y chwartel uchaf. Mae'r sector cig coch yn wynebu materion tebyg gyda chynhyrchiant.

Cymorth presennol

5.9 Yr UE sydd wedi bod yn pennu'r fframwaith ar gyfer polisi amaethyddiaeth a pholisi gwledig yng Nghymru am y 45 mlynedd ddiwethaf trwy ei bolisi amaethyddol. Mae Pennod 3 yn egluro sut y mae hyn wedi gweithio yng Nghymru.

5.10 *Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig* fu'r prif fecanwaith yr ydym wedi bod yn ei ddefnyddio i geisio dylanwadu ar weithrediad a pherfformiad ein cynhyrchwyr cynradd. Mae rhaglenni megis y *Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, Cyswllt Ffermio a'r cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren* wedi darparu buddsoddiadau ar gyfer rheolwyr tir trwy fesurau megis grantiau cyfalaf a refeniw, trosglwyddo gwybodaeth a chynghor.

5.11 Fodd bynnag, cyfyngwyd ar gynlluniau gan y rheoliadau datblygu gwledig sy'n gosod anhyblygrwydd sylweddol ar y rhaglenni, a hynny'n aml yn ddi-fudd. Rydym wedi defnyddio'r hyblygrwydd a ganiateir, ond nid yw'r PAC wedi ein galluogi i dargedu'r cymorth at y manau lle y mae'n cael yr effaith fwyaf.

Cynllun Cadernid Economaidd newydd

5.12 Er bod natur Brexit yn dal i fod yn ansicr, mae graddfa a chyflymder newid posibl yn golygu ein bod yn disgwyl y bydd angen i lawer o fusnesau newid rhyw agwedd ar eu gweithrediadau i barhau i fod yn hyfyw. Am y rhesymau a nodir ym Mhennod 3, mae angen cymorth i reoli'r newid hwn mewn modd sy'n eu cryfhau i wrthsefyll canlyniadau Brexit ac yn gwella'r modd y cyflawnir yr amcanion ehangach o ran llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

5.13 Mae Pennod 4 yn nodi'r rhesymau dros gefnogi buddsoddiadau mewn gweithgareddau ar y tir er mwyn eu cryfhau a gwella cynhyrchiant. Gan alluogi rheolwyr tir i weithredu mewn amgylchedd masnachu allanol gwahanol yn y dyfodol, byddwn yn rhoi amrywiaeth o gymorth ariannol wedi'i dargedu i'r rhai sydd â'r potensial i ddod yn hyfyw neu i bara'n hyfyw.

5.14 Rydym yn cynnig cyflwyno Cynllun Cadernid Economaidd i fuddsoddi mewn busnesau rheoli tir ar raddfa na fu'n bosibl yn y gorffennol.

¹³ <http://www.dairy.ahdb.org.uk/media/1670698/WelshEUConditionalAidScheme%20FULL%20WEB.pdf>

Mynediad at y cynllun

5.15 Gellir hybu cadernid mewn nifer o ffyrdd ac nid dim ond trwy roi cymorth yn uniongyrchol i fusnesau rheoli tir. Mae eu hyfywedd yn y dyfodol yn dibynnu'n llawn cymaint ar y gadwyn gyflenwi a gofynion defnyddwyr ag y mae ar gynhyrchu. Am y rheswm hwn byddwn yn buddsoddi mewn busnesau yng Nghymru sy'n cyflawni gweithgareddau cynhyrchu, prosesu a gweithgynhyrchu cynradd yn ogystal â rhoi cymorth i fusnesau eraill sy'n hanfodol i'r gadwyn gyflenwi ehangach (ymhellach i fyny ac ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi).

5.16 Rydym yn ymgynghori ynghylch y siâp a'r raddfa sy'n briodol ar gyfer y cymorth hwn ond rydym yn disgwyl iddo fod yn amodol ar strategaeth fusnes hygred, asesiad o hyfywedd a'r potensial ar gyfer adenillion ar fuddsoddiad. Yn gyson â'r Contract Economaidd a gyflwynir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, rydym yn disgwyl i fusnesau allu dangos potensial ar gyfer gwella eu cadernid cymdeithasol ac amgylcheddol o ganlyniad i well cadernid economaidd.

5.17 Bydd cymorth ariannol a chymorth arall yn hygyrch ac ni fydd yn amodol ar faint y busnes na'r cyfnod y mae ynddo o ran ei ddatblygiad. Yn hytrach, bydd buddsoddiad yn seiliedig ar gyfiawnhad busnes, gan gefnogi popeth o newidiadau ar raddfa fach mewn cynhyrchu i fuddsoddiadau mewn seilwaith mawr o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'n bwysig rhoi anogaeth frwd i fuddsoddi, arloesi a datblygu sgiliau entrepreneuriaidd ni waeth beth yw maint y busnes na pha gyfnod y mae ynddo o ran datblygiad busnes.

5.18 Efallai na fydd yn bosibl i bob busnes fferm fod yn economaidd gadarn ym mhob senario masnach ar ôl Brexit (gweler Pennod 3). Mae hwn yn un o'r rhesymau pam ein bod yn creu ffrwd incwm newydd a gwerthfawr trwy'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus a ddisgrifir ym Mhennod 6.

Pwysigrwydd ansawdd a safonau

5.19 Mae gwaith Grŵp y Ford Gron ar Brexit wedi tanlinellu ein gallu a'n hangen i harneisio'r asedau naturiol ardderchog a'r cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd da sydd i'w cael yng Nghymru. Mae hyn yn hollbwysig i'n gallu i gystadlu yn y dyfodol mewn marchnadoedd rhyngwladol a chartref a dylai fod yn sylfaen i'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo i sefydlu brand Cymru, sef '*Brand Cymru Wales*'. Mae gan Gymru botensial gwyach nid dim ond i werthu stori ein tirwedd a'n diwylliant trwy ein cynnyrch, ond hefyd i ddangos ein gwerthoedd a'n harfer gorau â safonau a chynlluniau sicrwydd y mae cryn dystiolaeth iddynt.

5.20 Mae cynlluniau sicrwydd a safonau megis FAWL, (Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru), Red Tractor a Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS)) eisoes yn weithredol yng Nghymru a ledled y DU. Rhaid inni adeiladu ar y rhain, gan roi anogaeth ar gyfer safonau uchel mewn iechyd a lles anifeiliaid, defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol ac ôl troed carbon llai. Mae hyn yn perthyn yn agos i fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n cael ei drafod ym Mhennod 7.

5.21 Mae cyswllt annatod rhwng cynhyrchiant, proffidioldeb a chadernid busnesau yng Nghymru ar y naill law ac iechyd a chryfder ein hadnoddau naturiol ar y llaw arall. Mae'r un peth yn wir am iechyd a lles ein da byw, er enghraifft gall achosion o glefydau a'r mesurau i'w rheoli ddwyn canlyniadau eang a chostus i iechyd y cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd. Felly bydd cymorth gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r canlyniadau hyn ac wedi'i fwriadu i gefnogi gwelliannau mewn safonau.



Meysydd cymorth

5.22 Mae tystiolaeth o Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet ar Brexit, dadansoddiad ehangach gyda rhanddeiliaid a thystiolaeth arall wedi amlygu pum maes allweddol ar gyfer cymorth posibl:

Maes 1: cynyddu potensial y farchnad.

Maes 2: gwella cynhyrchiant.

Maes 3: arallgyfeirio.

Maes 4: rheoli risg yn effeithiol

Maes 5: cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac arloesi.

5.23 Mae'r newidiadau posibl a achosir gan Brexit ac sy'n wynebu ein cadwyni cyflenwi bwyd a ffibr yn golygu ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru newid yn sylweddol raddfa, dull a lefel y cymorth a gynigir i fusnesau rheoli tir. Y pum maes cymorth a awgrymir yw ein barn gychwynnol ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol ac rydym yn ceisio eich barn ar ôl ystyried a yw'r rhain yn gywir, sut orau y gellir eu cyflawni, a phwysigrwydd cymharol pob un o ran cyllid.

Maes 1: cynyddu potensial y farchnad

5.24 Ar hyn o bryd, yr UE yw partner masnachu unigol mwyaf y DU ar gyfer amaethyddiaeth, bwyd a chynnyrch pren a bydd unrhyw newid yn y sefyllfa fasnachu'n cael effaith ar ein cynhyrchwyr cynradd fel a drafodwyd ym Mhennod 3. Beth bynnag fydd yr amgylchedd masnachu terfynol sy'n deillio o Brexit, po fwyaf fydd ffocws ein busnesau ar farchnadoedd, po fwyaf o botensial fydd ganddynt i ffynnu ac nid dim ond goroesi.

5.25 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cymorth wedi'i dargedu a'i deilwra i wella chystadleurwydd a mynediad at farchnadoedd cartref a rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi anogaeth ar gyfer busnesau ar hyd y gadwyn gyflenwi sy'n fwy ystwyth ac sydd â mwy o ffocws ar farchnadoedd gan gael eu llywio gan ofynion defnyddwyr. Fel rhan o hyn byddwn yn hybu ysbryd cydweithredol rhwng busnesau ym mhob rhan o'r cadwyni cyflenwi, gan gynnwys cydweithio mewn

clystyrau a grwpiau manwerthwyr a chynhyrchwyr. Bydd y cydweithio'n seiliedig ar egwyddor tegwch yn y gadwyn gyflenwi.

5.26 Mae meysydd posibl ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- defnyddio'r strategaeth sy'n sail i frand cenedl y Cymry, 'Cymru Wales' i ddatblygu gwerthoedd brand cynaliadwy sy'n ymgorffori ansawdd ein cynnyrch megis bwyd a ffibr yn ogystal â'n hadnoddau naturiol;
- gweithio gyda'n cyrff ardoll i wella chystadleurwydd yn y farchnad, gan gynnwys llwybrau gwell i'r marchnadoedd cartref a rhyngwladol;
- cynyddu'r cydweithio fertigol a llorweddol rhwng busnesau gwledig; a
- cynorthwyo busnesau i fod yn gystadleuol yn y farchnad trwy welliannau i ddyluniad cynnyrch, brandio, costau cynhyrchu a'r defnydd o ddata ynghylch y farchnad.

Maes 2: gwella cynhyrchiant

5.27 Y tu allan i gyfyngiadau'r PAC, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu swm uwch o fuddsoddiad cyfalaf sydd wedi'i dargedu tuag at gryfhau'r gadwyn gyflenwi a gwella'i chynhyrchiant. Nid yw cynyddu cynhyrchiant yn golygu cynyddu'r gyfradd gynhyrchu. Yn hytrach bydd cymorth yn cael ei gynnis i helpu i wireddu cyfleoedd i leihau cost cynhyrchu pob uned, cynyddu'r gwerth a ychwanegir at ein cynnyrch cynradd, gan felly wella chystadleurwydd mewn marchnadoedd presennol a newydd.

5.28 Mae Pennod 3 yn egluro sut y gall newid cymharol fach yn nhrosiant neu gostau fferm ddwyn newid cymharol sylweddol i incwm busnes net y fferm. Felly gall mesurau i wella cynhyrchiant gael effaith sylweddol fel a amlygwyd yn gynharach gan y dystiolaeth o'r cynllun Cymorth Amodol. Mae Cronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Pontio o'r UE yn cael ei defnyddio i gasglu data tebyg a deall cyfleoedd ar gyfer cynhyrchiant gwell yn y sector cig coch.

5.29 Gall defnydd gwell o'n hadnoddau naturiol ac economi fwy cylchol sy'n ceisio dod o hyd i werth mewn cynnyrch yr arferid ei ystyried yn wastraff gynyddu cynhyrchiant busnes yn fawr hefyd. Bydd cymorth yn cael ei roi i fabwysiadu technoleg, offer a thechnegau sy'n lleihau ôl troed carbon y busnes a'i effaith ar adnoddau naturiol fel rhan o welliannau mewn cynhyrchiant.

5.30 Mae buddsoddi yn sgiliau a galluedd y rhai sy'n gweithio o fewn y gadwyn gyflenwi, ac yn enwedig rheolwyr tir, yn hanfodol i wireddu'r cyfleoedd i wella cynhyrchiant, fel a drafodir ymhellach yn yr adran ar gyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac arloesi.

5.31 Mae meysydd posibl ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- Buddsoddi sydd wedi'i dargedu ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn busnesau i fynd ati mewn modd cynaliadwy i wella cynhyrchiant ac arferion rheoli, gan ostwng costau a lleihau gwastraff;
- rhoi anogaeth i fabwysiadu arferion cynllunio ar gyfer iechyd anifeiliaid ac argyfyngau i gynyddu cynhyrchiant a hyfywedd economaidd trwy ostwng clefydau a chostau cysylltiedig;
- buddsoddi mewn seilwaith, gan roi anogaeth am gadwyn gyflenwi sy'n ychwanegu mwy o werth, economi fwy cylchol ac arbedion maint; a
- mabwysiadu technoleg ac arferion arloesol gan gynnwys offer, technegau a defnydd o ddata i roi anogaeth ar gyfer gwell cynhyrchiant a datgarboneiddio.

Maes 3: cymorth i arallgyfeirio

5.32 Bydd arallgyfeirio ein busnesau ymhellach yn hollbwysig i'w cryfhau i allu gwrthsefyll pwysau'r farchnad a ddaw o bosib yn sgîl Brexit. Mae llawer o'n busnesau mentergar eisoes yn amrywiol, ond bydd yr amgylchedd newidiol o ran marchnadoedd yn arwain at risgiau newydd yn ogystal â chyfleoedd newydd.

5.33 Rydym yn disgwyl y bydd angen i lawer o reolwyr tir ystyried cryfhau eu hincwm trwy arallgyfeirio a chan hynny rydym yn bwriadu blaenoriaethu cymorth i gyflawni hyn. Ymhlith yr opsiynau ar gyfer arallgyfeirio mae: newid mewn pwyslais ym maes cynhyrchu cynradd; cynhyrchu nwyddau cyhoeddus a chyfleoedd y tu allan i ddiwydiannau'r tir.

5.34 Bydd y cyfleoedd i bob busnes yn wahanol ac felly rhaid inni ddarparu llwybr effeithiol i fusnesau gael cyngor ac ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio eu hincwm. Bydd angen i'r cynllun integreiddio â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru megis cynllunio ac ystyriaethau o ran defnydd tir i alluogi cyfleoedd arallgyfeirio priodol i ddiwydd.

5.35 Mae meysydd posibl ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- cyngor a chymorth i fusnesau gwledig arallgyfeirio yn y cadwyni cyflenwi bwyd a ffibr, gan gynnwys cymorth i ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau a chynnyrch;
- integreiddio â chymorth cenedlaethol a rhanbarthol arall, megis gan Busnes Cymru, i fusnesau gwledig sydd â'u bryd ar arallgyfeirio y tu hwnt i gynnyrch a gwasanaethau bwyd a ffibr;
- rhoi anogaeth ar gyfer mentrau, megis buddsoddi mewn seilwaith, i gynyddu'r cyfle posibl ar gyfer arallgyfeirio, er enghraifft defnyddio cysylltedd band eang mewn busnesau.

Maes 4: rheoli risg yn effeithiol

5.36 Fel a nodwyd ym Mhennod 3, bydd busnesau rheoli tir yn fwy agored i natur gylchol a chyfnewidioldeb marchnadoedd byd-eang. Mae hyn yn ychwanegol at reoli risgiau presennol i'w busnesau, megis clefydau anifeiliaid a phlanhigion a thywydd garw. Hyd yn oed pe bai'n bosibl, nid rôl Llywodraeth Cymru yw diogelu busnesau yn y gadwyn gyflenwi rhag risgiau arferol i fusnesau. Fodd bynnag, gallwn roi anogaeth ar gyfer cyfleoedd masnachol i liniaru canlyniadau ariannol y risgiau hyn os ydynt yn digwydd, gan hefyd gynorthwyo busnesau i feithrin



eu galluedd i reoli'r risgiau hyn a chyfnewidioldeb cynyddol. Wrth wneud hynny, rhaid inni gydnabod bod cymorth uniongyrchol dan y BPS wedi bod yn offeryn i reoli cyfnewidioldeb.

5.37 Mae mesurau cyllidol eisoes ar gael i helpu ffermydd a busnesau eraill, er enghraifft lwfansau cyfalaf i roi cymhelliad i fuddsoddi a darpariaethau cyfartaleddu treth incwm. Mae'r farchnad fasnachol yn y DU yn darparu cyfleoedd ar gyfer cymorth, er enghraifft trwy gynlluniau yswiriant. Ceir diddordeb cynyddol hefyd mewn defnyddio marchnadoedd blaendrafodion ac opsiynau yn y DU, yn enwedig ar gyfer nwyddau megis llaeth ac ydau, sydd eisoes ar gael yn rhyngwladol.

5.38 Mae rôl i'r Llywodraeth gefnogi mesurau ariannol o'r fath ond dylai unrhyw ymyrraeth fod wedi'i dylunio fel ei bod yn galluogi ac nid yn disodli'r farchnad fasnachol sy'n bodoli neu gyfyngu ar y potensial i wneud hynny.

5.39 Mae gwella cynhyrchiant, ffrydiau incwm wedi'u harallgyfeirio a chydweithio hefyd yn fathau pwysig o ymyrraeth y dylid eu blaenoriaethu i helpu busnesau i reoli eu risgiau yn awr ac yn y dyfodol, er enghraifft y rhai sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd.¹⁴

5.40 Mae meysydd posibl ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- gwella sgiliau i'w gwneud yn bosibl adnabod, targedu a rheoli risgiau gweithredol mewn busnesau, er enghraifft trwy roi anogaeth i ddefnyddio data i wella cynhyrchiant (gan gynnwys atal, rheoli neu waredu clefydau a phlâu);
- annog busnesau i gydweithio'n fwy i rannu'r risgiau a'u cryfhau i wrthsefyll amodau'r farchnad;
- ystyried rôl y Llywodraeth i ddatblygu mesurau ariannol i leihau risg masnachol ac annog busnesau i'w defnyddio.

5.41 Gall sefyllfaoedd megis tywydd garw neu fethiant sylfaenol yn y farchnad fod y tu hwnt i gapasiti'r holl fusnesau ac eithrio'r rhai mwyaf cadarn. Yn y sefyllfaoedd eithafol hyn mae rôl bosibl i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn helpu i reoli'r risgiau hyn.

Maes 5: cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac arloesi

5.42 Mae cyfle ac angen i fusnesau wella'u cynhyrchiant trwy fynd ati'n effeithiol i fabwysiadu'r wybodaeth ddiweddaraf, sgiliau newydd ac arferion arloesol a'u rhoi ar waith. I rai, mae'r bwlch yma rhwng arfer cyfredol ac arfer gorau'n sylweddol ac oni bai yr eir i'r afael ag ef mae'n debygol o beryglu eu gallu i fasnachu'n annibynnol yn y dyfodol.

5.43 Nid yw cyfnewid gwybodaeth, datblygu sgiliau ac arloesi'n weithgareddau newydd i reolwyr tir yng Nghymru, gan fod mentrau parhaus megis y contract Cyswllt Ffermio wedi bod yn rhoi cymorth unigryw i fusnesau trwy'r RhDG. Mae arbenigedd sylweddol yn bodoli yn ein sefydliadau academaidd hefyd, yn ogystal â chyrff ardol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Hybu Cig Cymru (HCC).

5.44 Mae amryw werthusiadau, fodd bynnag, wedi dangos y gall y ddarpariaeth fod yn dameidiog a'i bod, i ryw raddau, yn gweithredu'n fwy mewn cystadleuaeth na chydweithrediad. Mae'r Cynllun Caderndid Economaidd yn cynnig trawsnewid y dull hwn a hybu diwylliant o gydweithio wrth roi ymchwil ar waith, arloesi, cyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau. Dylai'r cydweithio hwn ganolbwyntio ar lywio gwelliannau mewn cynhyrchiant, gan gynnwys gwella iechyd a lles, ansawdd a diogelwch bwyd, lleihau effeithiau amgylcheddol a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau.

¹⁴ Mae'r adroddiad ar fyw gyda hinsawdd sy'n newid a gyhoeddwyd yn 2016 'Agriculture & Forestry Climate Change Impacts' yn tynnu sylw at nifer o effeithiau posibl, gan gynnwys mwy o risg o blaon a chlefydau wrth i'w tiriogaethau estyn. Gallai'r cynnydd yn lefel y môr a mwy o dywydd garw a thymheredd uwch hefyd arwain at fwy o lifogydd a sychder -<https://nerc.ukri.org/research/partnerships/ride/lwec/report-cards/agriculture/>

5.45 Mae gan dechnoleg a thechnegau manwl modern y potensial i drawsnewid ein busnesau a chynyddu cynhyrchiant yn sylweddol, gan hefyd gyfrannu at ein rhwymedigaethau o ran datgarboneiddio a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ymhellach mewn camau i fabwysiadu technoleg a thechnolegau manwl gan fusnesau mewn meysydd megis y rhai a nodir ym **Mhwynt Cefndir G**.

5.46 Mae meysydd posibl ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- datblygu cyfleoedd i'r sector preifat gydweithio o ran cyfnewid gwybodaeth ac arloesi trwy ddarparu cyllid a rhaglen wedi'i dylunio sy'n cael ei chyflawni ar y cyd;
- cychwyn a chymhwyso ymchwil ac arferion arloesol i hybu cynhyrchiant uwch, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, yn enwedig trwy dechnegau manwl;
- gwella cadernid trwy dechnoleg a thechnegau manwl;
- rhoi anogaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sgiliau parhaus fel rhan o ddiwylliant o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Mecanweithiau cymorth

5.47 Fel a nodwyd ym Mhennod 4, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dirwyn taliadau uniongyrchol i ben yn raddol, sy'n creu newid sylfaenol yn y modd y gall cymorth i fusnesau gael ei dargedu. Rhaid inni feddwl sut orau i ddefnyddio'r cymorth newydd hwn.

Offer ar gyfer cymorth

5.48 Bydd y cynllun yn tynnu ar ystod o ddulliau cymorth, er enghraifft offer ariannol megis grantiau, benthyciadau neu warantau'r Llywodraeth gan Lywodraeth Cymru ac eraill megis Banc Datblygu Cymru a sefydliadau ariannol annibynnol. Bydd y buddsoddiadau hyn yn cael eu dylunio er mwyn ei gwneud yn bosibl cael newid sylweddol yn y cyfleoedd ar gyfer busnesau yng Nghymru yn ogystal ag yn eu cynhyrchiant a'u cadernid i'w cynorthwyo i fod yn gystadleuol. Buddsoddiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fyddant, a'r rheiny'n seiliedig ar achos busnes hyfyw, yn hytrach na ffrwd incwm gwarantiedig.

Newid sylweddol yn yr arlwy cyngor

5.49 Mae angen i fusnesau wybod pa gyngor a chymorth sydd ar gael a bod â llwybr clir i gael mynediad at y rhain boed fel rhan o'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus (Pennod 6) neu'r Cynllun Cadernid Economaidd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi cyngor a chymorth sylweddol i reolwyr tir trwy wasanaethau megis y Gwasanaeth Cyswllt Ffermydd, Cysylltwyr Fferm a Rheolwyr Contractau Glastir. Mae gan sefydliadau eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff statudol ar gyfer cefn gwlad, yr amgylchedd a choedwigaeth, rôl bwysig hefyd.

5.50 Mae graddfa Brexit yn golygu bod angen inni wneud llawer mwy i ddod o hyd i ffordd o gyrraedd pob ffermwr a choedwigwr, a rhoi cymorth anariannol o ran yr ystod lawn o newidiadau y gall fod eu hangen. Nid oes angen i Lywodraeth Cymru roi'r cyngor hwn i gyd yn uniongyrchol; dylai ddod oddi wrth y sefydliad mwyaf priodol trwy raglen integredig sy'n cynnwys y Llywodraeth, cyrff ardoll, sefydliadau academaidd a, lle y bo'n briodol, eraill sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi megis banciau a sefydliadau manwerthu.



5.51 Bydd angen i'r modd y darperir sgiliau ac y rhoddir cyngor i fusnesau ganolbwyntio ar gynllunio busnes, gan ddefnyddio data, rheolaeth ariannol a threfniadau rheoli risg a mynediad at y farchnad i baratoi ein entrepreneuriaid ar gyfer y dyfodol.

Cymorth busnes ehangach

5.52 Meddyliwyd am y cynllun hwn yn unol ag amcanion y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, yn arbennig cynlluniau ar gyfer bwyd fel sector sylfaen. Er bod y Cynllun Cadernid Economaidd wedi'i dargedu at reolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi, ni ddylai fod rhwystrau sy'n atal busnesau rheoli tir rhag cael budd o fathau ehangach o gymorth busnes gan Lywodraeth Cymru.

5.53 Bydd y Cynllun Cadernid Economaidd yn gyson â'r cynigion a nodir yn ein papur diweddar ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit. Byddwn yn dylunio'r modd y caiff ei gyflawni ochr yn ochr â'r cynlluniau sy'n esblygu ar gyfer rhaglen i olynu'r cronfeydd strwythurol, gyda'r cynllun hwn yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu gwledig ehangach.

5.54 Dylai cysoni'r llwybr ar gyfer mecanweithiau cymorth, er enghraifft â Busnes Cymru, ddarparu math effeithiol a mwy effeithlon o gymorth i fentrau a busnesau ledled Cymru. Disgwylir gwasanaeth integredig, hygyrch ac ystwyth sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i'r holl fusnesau.

Buddsoddi mewn pobl

5.55 Ffermwyr, coedwigwyr ac entrepreneuriaid eraill yw sylfaen y cynllun hwn a chan hynny rydym yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn eu datblygiad.

5.56 Dylid ystyried bod gweithio i gynhyrchu cynnyrch neu wasanaethau o ansawdd o'r tir yn gyfle i bawb, yn enwedig y rhai sydd ar adeg gynnar yn eu gyrfa. Mae cyfleoedd i unigolion fod yn symudol o fewn y diwydiant (er enghraifft dechrau busnesau newydd neu gynllunio ar gyfer olyniaeth mewn busnesau presennol) yn bwysig hefyd, yn enwedig i reolwyr

tir. Mae dileu cyfyngiadau'r PAC a'r cyswllt rhwng cymhwyster am gynllun a hawliau hanesyddol yn darparu cyfle gwirioneddol ar gyfer newid.

5.57 Er y derbynnir yn eang bod symudedd, a hwyluso'r ffordd i waed newydd a syniadau newydd lifo i mewn i gadwyni cyflenwi'n hollbwysig i'w llwyddiant, mae hefyd yn fater emosiynol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch sut i ddatblygu mecanweithiau cymorth priodol a chost-effeithiol i wella symudedd hirdymor ar draws y gadwyn gyflenwi, er enghraifft trwy adeiladu ar raglen Mentro'r rhaglen Cyswllt Ffermio a'r cynllun Pobl Ifanc mewn Amaethyddiaeth

Gweithio mewn partneriaeth

5.58 Mae'r cynllun yn galw am ffordd newydd o weithio lle mae'r mecanweithiau a'r cymorth (gan y sectorau preifat a chyhoeddus) wedi'u dylunio ac yn cael eu darparu ar y cyd â phawb ar hyd y gadwyn gyflenwi.

5.59 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig felly i weithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus, ffermwyr, coedwigwyr, proseswyr a gweithgynhyrchwyr. Byddwn hefyd yn cynnwys eraill sy'n hollbwysig i'r cadwyni cyflenwi bwyd a ffibr, fel academyddion, sefydliadau ariannol, cyfanwerthwyr ac adwerthywr, i ddatblygu pecyn cymorth priodol ac effeithiol.

5.60 Mae angen ystyried y math o strwythur llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer y broses bontio hon i gyfundrefn rheoli tir newydd, gan gynnwys rôl grwpiau sector-benodol megis Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, Amaeth Cymru, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a'r Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd.

5.61 Mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae ond bydd angen i'r diwydiant gyflawni rôl weithredol o ran dylunio a pherchenogi'r mesurau economaidd a nwyddau cyhoeddus er mwyn inni gyflawni'r canlyniad a ddymunir, sef busnesau cystadleuol a chadarn sy'n cynyddu eu potensial economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r eithaf.

Pwynt Cefndir F: Enghreifftiau o botensial marchnadoedd

Gwerth ychwanegol – Mae cyfleoedd i gynnyrch Cymreig gael ei ddefnyddio fel cynhwysion craidd mewn prydau parod a chynnyrch arall wedi'i brosesu. Enghraifft o hyn yw wyth fferm yng Ngogledd Cymru sydd wedi llwyddo i gael contract gan gwmni prosesu bwyd i fynd â'u Cig Oen Cymru PGI i farchnad y DU mewn ystod o brydau parod newydd.

Cynyddu'r gyfradd gynhyrchu i ateb gofynion y farchnad – Mae'r farchnad yn y DU ar gyfer cynnyrch pren yn sylweddol fwy na'r cynnyrch pren a gynhyrchir (cyfradd hunangynhaliath o 19% mewn deunyddiau pren crai). Gan fod coedwigaeth yn gorchuddio 18% o'r tir yng Nghymru a bod y GVA cysylltiedig yn tyfu, gallai Cymru fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfle hwn i gynyddu'r cyflenwad ac ychwanegu gwerth trwy brosesu yn y dyfodol.¹

Cynhyrchu gartref yn lle mewnforio – Gyda lefel gymharol isel o hunangynhaliath a marchnad gref yn y DU sy'n seiliedig ar gynnyrch ffres, gallai'r sector llaeth dyfu dan senario masnach sy'n ei gwneud yn bosibl cynhyrchu gartref yn lle mewnforio trwy gynyddu costau mewnforion. Gallai prosesu'r nwyddau a gaiff eu mewnforio ar hyn o bryd (caws, iogyrtiau a phwdinau sy'n seiliedig ar laeth) gynyddu'r galw a'r cyfle ar gyfer llaeth o Gymru.

Darparu cynhwysion yn lle cyflenwadau o rannau eraill o'r DU – Er bod gennym ddiwydiant diodydd ffyniannus yng Nghymru, nid yw'r mwyafrif o'r cynhwysion yn rhai a dyfir yng Nghymru. Canfu adroddiad gan Grŵp Bwyd Cywain yn 2015 fod gan 82% o'r 88 microfragdy yng Nghymru ddiddordeb mewn prynu hopys o Gymru, a bod 50% yn barod i dalu premiwm.² Mae offer megis y mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn rhoi cyfle i adnabod lleoliadau addas yng Nghymru i dyfu'r cynhwysion hyn.

¹ Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16 – <https://gov.wales/docs/statistics/2016/161220-woodlands-wales-indicators-2015-16-en.pdf>

² Erthygl Cyswllt Ffermio ar adroddiad Grŵp Bwyd Cywain –

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/galw-am-hopys-grawnwin-wedi%E2%80%99u-tyfu-yng-nghymru>

Pwynt Cefndir G: Gwella cadernid trwy dechnoleg

Amaethyddiaeth a choedwigaeth fanwl – mae'r ystod o gymwysadau ar gyfer technoleg a ddatblygir ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth yn eang. Mae biotechnoleg yn datblygu'n barhaus, gydag offer a thechnegau arloesol megis genomeg a diagnosteg a allai wella iechyd rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a rhaglenni bridio. Mae technoleg megis data lleoli lloerennau a dyfeisiau synhwyro o bell yn dangos potensial sylweddol hefyd.

Arloesi mewn prosesu –Yn yr un modd, mae arloesi a defnydd gwell o dechnoleg yn bwysig i'r busnesau yn ein cadwyni cyflenwi bwyd a ffibr hefyd er mwyn ychwanegu gwerth. Gall arloesi drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi helpu busnesau prosesu i wella cynhyrchiant, er enghraifft ym maes peirianneg, systemau busnes, dyluniad deunyddiau pacio, dosbarthu, effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff.

Cwestiynau Ymgynghori – 3 i 7 o 20

3. O'ch profiad chi o raglenni cyfredol, beth fyddai'n gweithio'n dda yn y dyfodol yn eich tyb chi?
 4. Ydych chi'n cytuno â ffocws y Cynllun Cadernid Economaidd ar dyfu'r cyfleoedd mewn marchnadoedd ar gyfer cynnyrch o'r tir drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi, yn hytrach na chyfyngu'r cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig?
 5. Ai'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth yw'r rhai cywir i wella eu cadernid economaidd? A oes unrhyw feysydd y dylid eu cynnwys ond nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd?
 6. O'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth, pa rai yw'r blaenoriaethau, o ran cyllid a'r drefn o ran eu darparu? Er enghraifft, a oes angen rhoi rhai mesurau ar waith cyn rhai eraill?
 7. A ddylem fod yn buddsoddi mewn pobl, er enghraifft i gyflwyno syniadau, sgiliau a phobl newydd i faes rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru? Os felly, sut ddylem ymchwilio i hyn?
-

Pennod 6: Y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus

Mae gan dir Cymru'r potensial i ddwyn manteision sylweddol i holl bobl Cymru. Rydym am sefydlu cynllun Nwyddau Cyhoeddus newydd a hyblyg. Trwy'r cynllun newydd, bydd rheolwyr tir yn gallu cael eu talu am gynhyrchu canlyniadau nad oes marchnad ar eu cyfer ar hyn o bryd. Caiff y cynllun ei reoli trwy gytundebau unigol â rheolwyr tir a chynigir cyngor i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu busnes.

6.1 Mae gan dir Cymru'r potensial i wneud cyfraniad mwy sylweddol at lesiant Cymru o ganlyniad i reoli tir yn ofalus ac yn briodol. Mae dal a storio carbon, gwella ansawdd dŵr, hybu gwelliant yn iechyd y cyhoedd, cymorth addysgol, rheoli ein treftadaeth, cynefinoedd a rhywogaethau mwy cadarn, cymunedau cryfach a chynnal cyfalaf cymdeithasol cefn gwlad oll yn enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu.

6.2 Mae'r rhain yn bethau sydd o fudd i holl bobl Cymru. I wireddu ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru byddwn yn cyfuno rheolwyr tir profiadol a photensial tir Cymru, nas defnyddir ddigon, i ddarparu nwyddau cyhoeddus ar raddfa sylweddol. Mae hyn yn darparu modd gwerthfawr ar gyfer cyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol, yn enwedig y flaenoriaeth genedlaethol sy'n ymwneud â datrysiadau seiliedig ar natur.

6.3 Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith bod rheolwyr tir Cymru'n rhan o ddiwylliant sydd â gwerth sy'n ychwanegol at ei allbynnau economaidd. Bydd eu cadw ar y tir yn hollbwysig i gynnal a gwella'r cyfalaf amgylcheddol a chymdeithasol yn ein hardaloedd gwledig.

6.4 Byddwn felly'n helpu rheolwyr tir i wireddu ein gweledigaeth trwy roi cymorth ariannol ac ymgynghorol. Byddwn yn creu cynllun Nwyddau Cyhoeddus newydd ac o ganlyniad byddwn yn rhoi ffrwd incwm newydd werthfawr i reolwyr tir ar gyfer y tymor hir. Diben y cynllun yw rhoi cymorth i gyflawni canlyniadau nad oes marchnad weithredol ar eu cyfer. Yn wahanol i allbynnau economaidd traddodiadol, ni ellir cyflawni canlyniadau mewn mannau eraill yn lle'r canlyniadau hyn – er enghraifft, nid yw dŵr glân yn nalgylchoedd Cymru ond yn gallu cael ei ddarparu oddi mewn i'r dalgylchoedd hynny.

6.5 Lle mae marchnadoedd yn bodoli ar gyfer cynnyrch, er enghraifft ar gyfer bwyd, pren, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth, byddwn yn cefnogi'r gweithgareddau economaidd hynny trwy'r Cynllun Cadernid Economaidd a ddisgrifiwyd ym Mhennod 5. Dan nifer o amgylchiadau, bydd rheolwyr tir yn gallu darparu cymysgedd o nwyddau cyhoeddus ac allbynnau economaidd o'u tir. Hwylfydd i benderfynu ar gyfrannau cymharol y ddau, o fewn paramedrau'r ddau gynllun.

Cynlluniau cyfredol

6.6 Mae darparu nwyddau cyhoeddus eisoes yn cael ei gefnogi i raddau amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys trwy gynlluniau amaeth-amgylchedd, dynodiadau tir neu lle mae trydydd partïon eraill wedi ymyrryd. Rhaid cydnabod hefyd bod nwyddau cyhoeddus eisoes yn cael eu darparu ar dir y mae ei brif ddiben yn ymwneud â chynhyrchu amaethyddol neu goedwigol. Er bod rhai eithriadau, mewn llawer o achosion mae'r nwyddau cyhoeddus hyn wedi datblygu ochr yn ochr â gweithgareddau economaidd o ganlyniad i newidiadau ar raddfa gymharol fach i arfer cyfredol ac fe'u darperir ar gyfradd gymharol isel. Serch hynny, maent yn werthfawr o ran eu cyfraniad a'r potensial i adeiladu arnynt i esgor ar fwy o ganlyniadau.

6.7 Mae Cymru wedi ceisio gwneud y gorau o'i hyblygrwydd cyfyngedig o fewn y PAC, gan gynnwys rhoi'r mwyaf o gyllid a ellir i mewn i Golofn 2 a sefydlu Glastir, cynllun amaeth-amgylchedd presennol Cymru (a ddisgrifir ymhellach ym **Mhwynt Cefndir H**). Y sail resymegol ar gyfer gwneud hynny oedd er mwyn

cynyddu i'r eithaf y gallu i fuddsoddi mewn darparu nwyddau cyhoeddus, gan gefnogi'r cyfeiriad teithio a nodir gan ein deddfwriaeth.

6.8 Ond mae Glastir yn gyfyngedig. Yn arbennig, mae'n darparu cyllid sy'n gyfyngedig i gostau a ysgwyddwyd ac incwm yr aed hebddo. Lle mae incwm amaethyddol yn fach mae cwantwm y cyllid yn cael ei leihau o reidrydd i adlewyrchu lefel isel neu negatiff o incwm yr aed hebddo. Mae hyn yn gadael cymhelliad annigonol i gyfranogi, yn enwedig ar dir lle mae ymyrraeth yn fwyaf dymunol. Mae'r cynlluniau hyn yn gyfyngedig o ran cwmpas hefyd, gan roi cymorth i gyflawni allbynnau amgylcheddol yn unig ac nid amcanion cymdeithasol. Mae'r cwmpas cyfyngedig hwn a'r strwythur cyllido'n llywio ffocws ar fewnbynnau yn hytrach na chanlyniadau. Mae felly'n bosibl bod â chynllun amaeth-amgylchedd lle mae rheolwyr tir yn ateb gofynion y cynllun yn llawn ond heb gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Cynllun Nwyddau Cyhoeddus newydd

6.9 Gallwn wneud mwy. Gan ateb y feirniadaeth o gynlluniau presennol ac adlewyrchu ein dyhead i gadw rheolwyr tir ar y tir, byddwn yn datblygu cynllun seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar wobrwyo am gyflawni. Bydd y canlyniadau'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag ymrwymadau cartref neu ryngwladol a bydd rheolwyr tir yn cael taliadau â gwerth priodol am y canlyniadau hynny yn hytrach na chael eu digolledu am gostau mewnbwn. Mewn llawer o achosion, bydd arferion rheoli tir traddodiadol yn parhau i fod yn bwysig i gyflawni'r canlyniadau hyn. Gan hynny, nid oes rheswm pam na all ffermwr neu goedwigwr gynhyrchu nwyddau cyhoeddus a bwyd a phren.

6.10 Ein hamcanion yw:

- darparu ffrwd incwm newydd gwerthfawr ar gyfer rheolwyr tir, sy'n agored i bawb a chyda thaliad am ganlyniadau yn seiliedig ar y gwerth y mae cymdeithas yn ei roi arnynt;

- creu cyfraniad sylweddol ac un sy'n rhoi gwerth am arian at fynd i'r afael â rhai o broblemau mwyaf dybryd cymdeithas megis y newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd a rhywogaethau, ansawdd aer niweidiol, ansawdd dŵr gwael a mwy o berygl llifogydd;
- cryfhau cymunedau gwledig a chyfalaf cymdeithasol cefn gwlad trwy sicrhau bod rheolwyr tir yn cael y cyfle i barhau i reoli eu tir fel rhan o'r gymuned wledig.

6.11 Bydd y cynllun yn galluogi ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill i gael tâl am gynhyrchu nwyddau nad oes marchnad weithredol iddynt ar hyn o bryd. Bydd y cynllun yn seiliedig ar ganlyniadau a byddwn yn aml yn defnyddio allbynnau procsi i gyfrifo taliadau i reolwyr tir. Er enghraifft:

- un canlyniad yw 'mynd ati'n well i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd'. Gallai'r allbwn procsi fod yn nifer o dunelli o garbon deuocsid a gaiff eu dal a'u storio mewn coetir newydd ar fferm (wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar arwynebedd y tir a'r math o goetir)
- un canlyniad yw 'cynefinoedd ac ecosystemau iach a gweithredol'. Gallai'r allbwn procsi fod yn hectarau o dir cynefin dan reolaeth gadarnhaol weithredol
- lle mae canlyniadau lluosog yn cael eu ceisio yn yr un lleoliad, bydd allbynnau procsi'n cael eu llunio i adlewyrchu'r canlyniadau cyfunol.

Bydd y cynllun yn cael ei reoli trwy gytundebau rhwng rheolwyr tir a Llywodraeth Cymru. Cytundebau aml-flwydd fydd y rhain a'r rheiny'n adlewyrchu'r amser sydd ei angen i ddarparu nwyddau cyhoeddus ystyrion ac yn rhoi sicrwydd i reolwyr tir ynghylch ffrwd incwm yn y dyfodol. Bydd llawer o'r canlyniadau hyn yn galw am ymrwymiad hirdymor gan reolwyr tir a Llywodraeth Cymru.

6.12 Byddwn yn darparu gwasanaeth ymgynghorol sy'n cefnogi rheolwyr tir wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch eu model busnes yn y dyfodol. Bydd ymgynghorwyr yn gallu egluro pa ganlyniadau yr ydym yn eu ceisio, sut mae'r

canlyniadau hynny'n cael eu priso a chynnig arweiniad ynghylch y gwahanol opsiynau rheoli tir a fydd yn cyflawni'r canlyniadau. I fod yn gwbl effeithiol, rhaid wrth fframwaith rheoleiddiol cydlynol yn sylfaen i'r cynllun a thrafodir hyn ym Mhennod 7.

Paramedrau'r cynllun

6.13 Mae'r adran hon yn nodi paramedrau dylunio lefel uchel ar gyfer y cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Rydym yn ymgynghori ynghylch pob un o'r paramedrau hyn ac yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid ar y dyluniad manwl. Y paramedrau yw:

Paramedr 1. Cwmpas y cynllun – pa nwyddau cyhoeddus

Paramedr 2. Agored i bawb – sicrhau bod yr holl reolwyr tir yn cael y cyfle i fod yn gymwys

Paramedr 3. Cyfleoedd i weithredu – defnyddio dull gofodol

Paramedr 4. Nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth – sicrhau gwerth am arian

Paramedr 5. Ychwanegedd – ffocws ar reoli tir yn weithredol

Paramedr 6. Cyngor i reolwyr tir – sut i roi arweiniad priodol

Paramedr 1: Cwmpas y cynllun

6.14 Mae'r cynllun wedi'i fwriadu i ddarparu cyllid i ddarparu ystod eang o nwyddau cyhoeddus – gellir cynnwys canlyniadau cymdeithasol a chanlyniadau o ran iechyd, addysg a'r amgylchedd. Rhoddir rhai enghreifftiau isod ond mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r rhestr yn un gynhwysfawr – rydym yn bwriadu ychwanegu rhagor o gyfleoedd ar ôl ymgynghori. Fel a nodwyd yn flaenorol, ni fydd y cynllun yn rhoi cymorth i gynhyrchu canlyniadau y mae marchnad weithredol ar eu cyfer yn barod, yn bennaf bwyd a phren.

6.15 Mae'r nwyddau cyhoeddus y byddwn yn ystyried eu cefnogi'n cynnwys:

- **Datgarboneiddio ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.** Gallai'r newid yn yr hinsawdd gyflymu'r broses o gyflwyno rhywogaethau goresgynnol, plâu a chlefydau gan arwain at effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth frodorol ac ar gapasiti cynhyrchu tir fferm a choedwigaeth. Mae hinsawdd sy'n newid yn debygol hefyd o gynyddu'r risg o lifogydd yn y gaeaf a sychder yn yr haf. I leihau'r risgiau hyn mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi dull newydd o fesur y newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â hynny. Mae'n ein rhwymo i sicrhau bod allyriadau net o Gymru am y flwyddyn 2050 80% yn is na'r



llynell sylfaen ym 1990. Mae hyn yn gyson â'n hymateb rhyngwladol i Gytundeb Hinsawdd Paris, i gryfhau'r ymateb byd-eang i fygythiad y newid yn yr hinsawdd. Mae cyfleoedd sylweddol i leihau allyriadau niweidiol trwy weithgareddau megis adfer mawnogydd, yn ogystal â chyfleoedd i ddal a storio carbon megis plannu coetiroedd newydd. Hefyd, byddwn yn cefnogi camau gweithredu sy'n lleihau allyriadau o'r sector amaethyddol trwy reoli maethynnau ar ffermydd cyfan. Ceir cysylltiadau eglur â'r Cynllun Cadernid Economaidd, er enghraifft â rheoli tail a slyri.

- **Cynefinoedd ac ecosystemau cadarn.** Mae llawer o'r nwyddau cyhoeddus yr ydym yn eu ceisio'n gynhenid ddibynnol ar ecosystemau gweithredol iach i'w darparu. Mae ecosystemau cryf yn cloi carbon atmosfferig, yn arafu llif dŵr (gan felly leihau perygl llifogydd) ac yn cynnal ein bioamrywiaeth ehangach a thirwedd amrywiol. Bydd cyfleoedd i bawb – gyda daliadau bach neu fawr – fynd ati'n weithredol i wella neu adfer cynefinoedd presennol neu greu cynefinoedd newydd lle nad oes rhai, trwy blannu coed neu adfer glaswelltir i weithredu fel cysylltiadau pwysig ar gyfer cynefinoedd bach a darniog. Er mwyn eu cryfhau, bydd galw am gysylltu mannau yng Nghymru sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth â'r cefn gwlad ehangach, fel bod rhywogaethau'n gallu symud oddi mewn iddynt fel sy'n ofynnol ar gyfer pob cyfnod yn eu cylchoedd bywyd.
- **Lleihau perygl llifogydd.** Mae llifogydd diweddar wedi ein hatgoffa pa mor ddinistriol y mae llifogydd yn gallu bod i ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Mae modelau ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn ein hysbysu ein bod yn debygol o brofi gaeafau gwlypach yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i rwydweithiau o reolwyr tir ledled Cymru arafu llif dŵr trwy greu neu adfer coetiroedd gorlifdir, adfer mawnogydd, darparu tir ar gyfer gorlifoedd yn uwch i fyny'r afon yn y gaeaf a gwella cynefinoedd y glannau drwyddi draw mewn dalgylchoedd dŵr gan fynd ati ar y cyd i leihau perygl llifogydd i gymunedau ymhellach i lawr yr afon.
- **Ansawdd aer.** Gall arferion priodol ar gyfer rheoli maethynnau leihau allyriadau amonia a methan, gan helpu i gyflawni amcanion ansawdd aer a datgarboneiddio. Mae llygredd yn yr awyr o ddiwydiant, amaethyddiaeth a thrafnidiaeth yn cael effaith sylweddol ar iechyd dynol. Mae rhai coed yn gallu trapio gronynnau ac felly'n lleihau llygredd yn yr awyr. Bydd cyfleoedd i blannu mathau penodol o goetiroedd yn agos at darddle'r allyriadau, ar hyd coridorau trafndiaeth, ac mewn ardaloedd lled-drefol i ostwng gronynnau yn yr awyr, lleihau llygredd sŵn a darparu mannau gwyrdd a chyfleoedd ar gyfer mynediad.
- **Ansawdd dŵr.** Bydd lleihau llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle (gan gynnwys dŵr ffo o bridd) o amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gwella cyfran fawr o ddalgylchoedd dŵr a tharddleoedd dŵr daear. Gallai methiant i fynd i'r afael â llygredd dŵr arwain at godiadau yng nghost prosesu dŵr yfed yn y dyfodol, peryglu dyfroedd trochi trwy llygredd coliformau ysgarthol (gydag effeithiau pellach ar fusnesau twristiaeth a hamdden) a gall fod yn niweidiol i fioamrywiaeth gan gynnwys stociau pysgod sy'n sail i'r diwydiant genweirio. Y tu hwnt i gydymffurfio rheoleiddiol bydd cyfleoedd i reolwyr tir wella ansawdd dŵr trwy greu cynefinoedd mwy cadarn, yn ogystal ag arbedion economaidd trwy fynd ati'n well i reoli maethynnau a phlaladdwyr ar sail fferm gyfan.
- **Diogelu pridd.** Mae uwchbridd yn un o'n hadnoddau mwyaf bregus a phwysig. Mae'n cymryd amser i uwchbridd newydd ffurfio yn lle uwchbridd a gollwyd trwy erydiad ac mae'n dibynnu ar ble ydych chi yn y byd: mewn amgylcheddau a nodweddir gan hinsawdd fwyn, mae'n cymryd 200-400 mlynedd i ffurfio 1 cm o bridd. Felly mae cadw'r hyn sydd gennym yn hanfodol er mwyn inni gynnal ein gallu cyfredol i gynhyrchu bwyd. Mae cadw uwchbridd trwy gamau gweithredu megis cynydu gorchudd, rheoli dŵr ffo sy'n golchi dros y terfyn, rheoli erydiad a datblygu llystyfiant ar lannau afonydd o bwys sylfaenol.



- **Treftadaeth a hamdden.** Mae gan reolwyr tir rôl allweddol o ran cynnal a gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â darparu a gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae twristiaeth, ar y cyd ag adeiladu neu gynnal a chadw treftadaeth yn creu dwywaith cymaint o GVA â'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae cerdded a mathau eraill o weithgareddau corfforol yn creu cyflogaeth ac mae ganddynt y potensial i leihau costau iechyd yn y tymor hir.

Paramedr 2: Agored i bawb

6.16 Gall y canlyniadau o ran nwyddau cyhoeddus o fewn y cynllun gael eu gwahanu yn ôl y rhai sy'n deillio o ganlyniad i adnoddau naturiol presennol o fewn ffiniau'r fferm (er enghraifft cyrsiau dŵr neu nodweddion ar gynefinoedd) a'r rhai sydd â'r potensial i gael eu creu (er enghraifft camau datgarboneiddio, camau i gryfhau cynefinoedd, camau i ddiogelu pridd, camau i wella ansawdd aer). O fewn y cynllun, byddwn yn disgrifio'r rhain fel opsiynau presennol neu bosibl.

6.17 Hyd yn oed ar fferm sydd wedi'i gwella'n amgylcheddol yn ei chyfanrwydd bydd ystod o opsiynau posibl y gellir eu darparu yn enwedig os yw rheolwr y tir yn barod i newid y defnydd o beth o'i dir. Mae hyn yn sicrhau cyfle i bawb, y bumed egwyddor ar gyfer diwygio (gweler Pennod 4). Felly ni ddylai unrhyw reolwr tir wynebu cyfyngiadau oherwydd diffyg nodweddion neu gynefinoedd presennol o ran cael mynediad at y cynllun.

Paramedr 3: Cyfleoedd i weithredu

6.18 Mae llawer o nwyddau cyhoeddus yn ddibynnol ar gael eu darparu mewn lleoliadau penodol. Mae nwyddau cyhoeddus sy'n ddibynnol ar leoliad, wrth reswm, yn opsiynau sy'n bod fel a ddisgrifir uchod. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu system targedu gofodol seiliedig-ar-dystiolaeth soffistigedig i gyflawni'r cynllun Glastir Uwch presennol. Mae'r system hon yn gorgyffwrdd â chasgliad o fapiau digidol sy'n nodi gwasgariad gofodol ystod o gyfleoedd ar gyfer nwyddau cyhoeddus ledled Cymru. Lle y bo'n bosibl, bydd nwyddau cyhoeddus lluosog yn

cael eu ceisio mewn un lleoliad. Bydd y Datganiadau Ardal sy'n cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel sy'n ofynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd yn sail i dargedu gofodol yn y dyfodol hefyd. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y system hon i adnabod opsiynau presennol ar unrhyw fferm sy'n dymuno ymuno â'r cynllun. Bydd yn bwysig ystyried y dull gofodol hwn ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

6.19 Rydym yn cynnig fel un o egwyddorion y cynllun bod yn rhaid i opsiynau presennol gael eu cynnwys, tra gall opsiynau posibl gael eu cynnwys yn ôl disgrisiwn y rheolwr tir. Bydd cynllun sydd wedi'i strwythuro fel hyn yn gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer ffrwd incwm o ddarparu nwyddau cyhoeddus ni waeth beth fo maint y daliad tir. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod yr holl reolwyr tir yn cael y cyfle i fod yn gymwys i gael cymorth. Mae hyn hefyd yn ddewis effeithiol yn lle'r dull cyfredol o gynnig cynlluniau amaeth-amgylchedd "sylfaenol" neu "uwch" i ffermwyr.

Paramedr 4: Nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth

6.20 Byddwn yn cynnwys nwyddau cyhoeddus yn y cynllun dim ond os ydynt yn rhai lle mae cyswllt seiliedig-ar-dystiolaeth rhwng camau rheoli tir a chyflawni canlyniad penodedig. Mae'n bwysig ein bod yn gallu dangos gwerth am arian ac mae cyswllt amlwg rhwng camau gweithredu a chanlyniadau'n rhan gref o'r dystiolaeth honno. Yn gyfnewid, bydd taliad rheolaidd am nifer y canlyniadau a gyflawnwyd. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru a rheolwyr tir fod â thryloywder a hyder wrth bennu'r nifer a gyflawnwyd ac felly gall fod rôl ar gyfer asesiad gan drydydd parti annibynnol.

6.21 Bydd prisio'r canlyniadau'n bwysig a bydd offer newydd yn ofynnol i bennu gwerthoedd cymdeithasol priodol ar gyfer y canlyniadau a geisir, yn ogystal â methodolegau cadarn i fesur y modd cyflawnir y canlyniadau. Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw brisiad yn rhannol yn adlewyrchu gwerth cymdeithasol cadw tir dan reolaeth weithredol trwy gadw pobl ar y tir.

6.22 Rhaid inni hefyd ddiffinio llinell sylfaen briodol ar gyfer mesur a monitro'r canlyniadau. Trwy'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd byddwn yn adeiladu ar Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir a gomisiynwyr i asesu perfformiad Glastir. Bydd hyn yn darparu adborth polisi ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i wella'r targedu gofodol wrth ddylunio unrhyw gynllun rheoli tir yn y dyfodol.

Paramedr 5: Ychwanegedd

6.23 Bydd cyllid nwyddau cyhoeddus ar gael dim ond am gyflawni ychwanegedd. Mae dau faen prawf ar gyfer ychwanegedd – cyflawni canlyniadau uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau a chyflawni canlyniadau'n seiliedig ar weithgarwch rheoli priodol parhaus. Bydd angen bodloni'r ddau faen prawf er mwyn i reolwr tir ymuno â'r cynllun a pharhau i gyfranogi ynddo. Un enghraifft bosibl o ychwanegedd rheoli fyddai lle bydd angen i gynefinoedd agored gael eu pori'n ysbeidiol gan anifeiliaid i gynnal neu wella cryfder cynefinoedd.

Paramedr 6: Cyngor i reolwyr tir

6.24 Mae cyswllt uniongyrchol rhwng ansawdd canlyniadau ar y naill law ac ansawdd y rheolaeth a gymhwysir i'r tir sy'n eu creu ac yn eu cynnal ar y llaw arall. I rai nwyddau cyhoeddus, bydd rheolwyr tir yn cymhwyso sgiliau a gwybodaeth a gafwyd yn uniongyrchol o'u blynyddoedd o brofiad o reoli tir. Bydd canlyniadau eraill yn mynnu dulliau newydd a dyma pam y bydd tîm ymgynghorol ar gael i gynorthwyo rheolwyr tir o ran nwyddau cyhoeddus a chadernid yr economi (fel a ddisgrifir ym Mhennod 5).

6.25 Bydd y tîm ymgynghorol yn defnyddio'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal am y lleoliad posibl ar gyfer darparu nwyddau cyhoeddus (a geir o ddata gofodol a ddarperir o nifer o ffynonellau, gan gynnwys CNC) i'w gwneud yn bosibl trafod gyda rheolwr tir beth ellid ei ddarparu o'r tir sy'n cael ei reoli. Bydd y drafodaeth hefyd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gweithredu a fydd yn dwyn y canlyniadau a ddymunir a faint fydd y cynllun yn ei dalu am gyflawni'r canlyniadau hynny. Wrth wneud

hynny, bydd yr ymgynghorydd hefyd yn ystyried lle'r tir yn y dirwedd ehangach, gan oleuo penderfyniadau am ddymunoldeb cydweithio ehangach.

Cydweithio a chyflawni ar raddfa

6.26 Rydym yn rhagweld y bydd cydweithio'n bwysig mewn nifer o achosion gan fod y canlyniadau yr ydym yn eu ceisio naill ai dim ond yn gallu cael eu cyflawni ar raddfa tirwedd neu'n darparu lefelau cyflawni uwch o lawer pan fo rheolwyr yn cydweithio.

6.27 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i dir comin yng Nghymru, sy'n elfen sylweddol o'r dirwedd. Mae'n bwysig i'r cynefinoedd y gellir eu cynnal a'i botensial ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Rhoddir gwerth uchel ar nifer o diroedd comin oherwydd eu harwyddocâd diwylliannol, hanesyddol a chymdeithasol.

6.28 Bydd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso gwersi a ddsygwyd o Gynllun Tir Comin Glastir, y Cynllun Rheolaeth Gynaliadwy a chynlluniau cydweithredol eraill nas ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r modelau gorau. Yn y gorffennol, ar gyfer meysydd a chanlyniadau lle mae cyflawni i'r safon orau bosibl yn galw am gyflawni ar raddfa'r dirwedd, un dull fu cynnull rheolwyr tir a'u hannog i gydweithio o'r dechrau un. Mae hyn weithiau wedi profi'n gymhleth i'r ddwy ochr, gydag oedi sylweddol cyn bod cyflawni'n dechrau. Hefyd mae'n galw am ymrwymiad gan reolwyr tir i dreulio amser yn datblygu dull cydweithredol heb lawer o sicrwydd ar y dechrau y ceir llwyddiant yn y dyfodol. Rydym felly'n bwriadu archwilio modelau gwahanol.

6.29 Er enghraifft, i ddechrau efallai mai dim ond un rheolwr tir fydd gennym mewn tirwedd sydd wedi ymrwymo i'r cynllun. Fodd bynnag, gallai'r cynllun gael ei ddylunio fel ei fod yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y rheolwr tir hwnnw a'i gymdogion pan fo'r cymdogion hynny'n ymuno â'r cynllun, ar yr amod eu bod i gyd yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym wedi'u nodi ar gyfer gweithredu ar y cyd, gan adlewyrchu'r

potensial ar gyfer synergedd o ganlyniad i gydweithio. Nid yw hyn yn atal rheolwyr tir unigol rhag cyflawni canlyniadau eraill yn unigol hefyd.

6.30 Hefyd, nid oes angen i Lywodraeth Cymru fod yr unig weinyddwr. Byddwn hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer cydweithio i gyflawni gyda sefydliadau eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

6.31 Pan fo'n briodol, bydd y cyfle ar gyfer buddsoddi'n breifat mewn nwyddau cyhoeddus yn bosibl. Gall buddsoddiadau a fyddai'n dwyn manteision ariannol uniongyrchol i'r sector preifat ddwyn manteision anuniongyrchol i gymdeithas, trwy ddarparu nwyddau cyhoeddus, gan ddarparu ffynhonnell incwm ychwanegol ar gyfer rheolwyr tir. Mae nifer o'r cytundebau hyn yn bodoli yng Nghymru a'r rheiny'n dwyn manteision ar gyfer ansawdd dŵr ac o ran faint o ddŵr sydd, perygl llifogydd, carbon, bioamrywiaeth, rheoli plâu a hamdden. Mae hon yn farchnad sy'n tyfu gyda nifer o ysgogyddion economaidd, rheoleiddiol ac amgylcheddol.

Nid yn unig bydd angen i gynllun Nwyddau Cyhoeddus allu cael ei gynnal ochr yn ochr â'r mathau hyn o gytundebau ond bydd angen iddo annog a hyrwyddo'r math hwn o fuddsoddiad preifat.

Sicrhau ffrwd incwm

6.32 Rhaid i'r holl gynlluniau amaeth-amgylchedd gydymffurfio â rheolau'r WTO. Mae cynlluniau Colofn 1 y PAC a chynlluniau amaeth-amgylchedd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn perthyn i'r 'blwch gwyrdd' yn ôl y diffiniad yng 'Nghytundeb WTO ar Amaethyddiaeth'. Mae **Pwynt Cefndir I** isod yn nodi'r meini prawf ar gyfer dyrannu cyllid i'r blwch priodol o fewn y Cytundeb ar Amaethyddiaeth. Ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd, mae'r dosbarthiad hwn yn cyfyngu ar y cymorth ariannol a ddarperir i incwm yr aed hebddo neu gostau a ysgwyddwyd.

6.33 Fel a nodwyd uchod, rhaid inni fynd y tu hwnt i hyn i sicrhau bod y cynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a Chadernid Economaidd yn gallu darparu cyllid ystyrion ar gyfer rheolwyr tir.

6.34 Mae hyn yn rhan hanfodol o sicrhau ein bod yn gallu bodloni ein profion cymdeithasol a fynegir yn ein hegwyddorion ar gyfer cadw rheolwyr tir ar y tir a sicrhau eu bod yn cael y cyfle i wneud bywoliaeth o'r tir. I rai, taliadau am nwyddau cyhoeddus fydd sylfaen neu gyfran fawr o'u model busnes yn y dyfodol. Felly mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr ystyriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn null y DU o weithredu trefniadau'r WTO.



Pwynt Cefndir H: Cynlluniau amaeth-amgylchedd yng Nghymru

Mae gan gynlluniau amaeth-amgylchedd hanes hir yng Nghymru. Ar eu hanterth roedd 7,600 o gyfranogwyr, yn cynrychioli 52% o gyfanswm yr arwynebedd amaethyddol a oedd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru, gyda'r mwyafrif wedi'u lleoli yn yr ucheldir

Bu cyflawniadau amlwg trwy'r cynlluniau hyn:

- Gwelliannau sylweddol i gyflwr mawndiroedd yng Nghymru. Mae hyn yn dwyn manteision lluosog ac yn cynyddu'r ddarpariaeth o ran ystod o nwyddau cyhoeddus, gan gynnwys cryfhau'r foamrywiaeth, lliniaru perygl llifogydd, gwella ansawdd dŵr a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyr.
- Mae ansawdd nentydd bychain a rhagnentydd wedi cynyddu mewn ymateb i newidiadau mewn rheolaeth amaethyddol ar dir cyfagos. Canfu arolwg Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir fod 83% yn rhai â statws ecolegol da neu uchel.
- Dros y 10 mlynedd ddiwethaf gwelwyd sefydlogi'n digwydd ar draws poblogaethau o rywogaethau pili-palaod arbenigol a chyffredinol yn dilyn degawdau o ddirywiad.
- Mae carbon uwchbridd wedi bod yn sefydlog neu wedi cynyddu mewn coetiroedd a thir wedi'i wella dros y 30 mlynedd ddiwethaf.

Pwynt Cefndir I: Categoriâu cymorth y WTO

Mae'r **Blwch Ambr** – yn cynnwys mesurau cymorth cartref yr ystyrir eu bod yn llurgunio gweithgareddau cynhyrchu a masnach. Ar ôl cylchoedd dilynol o leihau cymorth cartref, mae rhyw 30 o aelodau'r WTO wedi datgan lefel o uchafswm cymorth Blwch Ambr yn eu rhestrau. Ymrwymiad yw hwn i gapio a lleihau eu lefelau o gymorth cartref sy'n llurgunio masnach.

Mae mesurau **Blwch Glas** – yn cynnwys taliadau uniongyrchol a wneir dan raglen sy'n cyfyngu ar gynhyrchu. Mae hyn yn golygu mai'r nod y dylid anelu ato yw cyfyngu ar gynhyrchu trwy osod cwtâu cynhyrchu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr neilltuo rhan o'u tir fel neilltir. Dim ond llond llaw o aelodau'r WTO sy'n defnyddio mesurau Blwch Glas.

Mae'r **Blwch Gwyrdd** – yn cynnwys mesurau cymorth sy'n cael "dim effeithiau, neu effeithiau bach iawn ar y mwyaf, ar gynhyrchu", ac nad ydynt yn llurgunio masnach. Rhaid i fesurau o'r fath fod wedi'u hariannu gan y llywodraeth ac ni allan fod ar ffurf cymorth gyda phris. Enghreifftiau o fesurau Blwch Gwyrdd yw cymorthdaliadau sydd wedi'u datgyplu oddi wrth lefelau neu brisiau cynhyrchu, rhai rhaglenni diogelu'r amgylchedd a rhaglenni datblygu gwledig. Mae unrhyw fesur cymorth amaethyddol domestig sy'n perthyn i'r Blwch Gwyrdd yn un a ganiateir.

Ffynhonnell: Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth, 1995

Cwestiynau Ymgynghori – 8 i 15 o 20

8. Rydym wedi nodi ein paramedrau arfaethedig ar gyfer y cynllun nwyddau cyhoeddus. A ydynt yn briodol? Fyddech chi'n newid unrhyw beth? Os felly, beth?
 9. Mae'r cynllun hwn i fod i gynnig y cyfle i reolwyr tir gael mynediad at ffrwd incwm newydd sylweddol wrth i'r BPS ddod i ben. Sut allem ni wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddenu rheolwyr tir tra'n bod hefyd yn gwireddu ein gweledigaeth ac yn cyflawni ein hamcanion?
 10. A oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eich tyb chi? Os felly, pam?
 11. Gallai nifer o nwyddau cyhoeddus gymryd blynyddoedd lawer, weithiau degawdau, i gael eu gwireddu'n llawn, er enghraifft dal a storio carbon trwy goed llydanddail. Er mwyn cyflawni'r rhain, efallai y bydd angen i reolwyr tir ymrwymo i gontract hirdymor. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd cytundebau o'r fath yn gweithio? Beth fydd manteision neu anfanteision cytundebau o'r fath yn eich tyb chi?
 12. Gallai dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus ddarparu mwy o werth am arian na gweithgarwch ar wahân mewn rhai achosion. Sut allai'r cynllun hwyluso'r dull hwn? Sut allai cyrff cyhoeddus a phreifat gyfrannu at bartneriaethau o'r fath?
 13. Gall rhai camau gweithredu ddarparu nwyddau cyhoeddus lluosog yn yr un lleoliad. Er enghraifft, gall adfer mawnogydd ddwyn manteision ar gyfer dal a storio carbon a lleihau perygl llifogydd. Fodd bynnag, gallai rhai lleoliadau fod yn addas ar gyfer nwyddau cyhoeddus lluosog o weithgareddau gwahanol. Er enghraifft, gallai un lleoliad fod yn addas naill ai i blannu coed ar gyfer dal a storio carbon, neu gael ei droi'n ôl yn wlypdir ar gyfer bioamrywiaeth. Sut allai lleoliadau ar gyfer manteision unigol, lluosog neu fanteision sy'n cystadlu â'i gilydd gael eu blaenoriaethu?
 14. O ystyried y bydd cymorth i ddarparu nwyddau cyhoeddus yn ddull newydd yng Nghymru, bydd peth wmbredd o hyfforddiant a chyngor ar gyfer y sector yn ofynnol. Sut orau ellir darparu'r hyfforddiant a'r cyngor hwn? Pa feysydd yn y sector yw'r rhai y mae arnynt angen y mwyaf o sylw?
 15. Mae buddsoddi'n breifat mewn prynu nwyddau cyhoeddus eisoes yn digwydd, ond ar raddfa gymharol fach. Sut allai'r cynllun newydd hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat? Beth yw'r rhwystrau i'r math yma o fuddsoddiad?
-

Caiff rheolwyr tir eu rheoleiddio trwy frodwaith o reoleiddio, y mae cryn dipyn ohono'n deillio o bolisi'r UE. Mae Brexit yn darparu'r cyfle i adeiladu ar Ddeddf yr Amgylchedd i sefydlu sail reoleiddiol newydd ar gyfer rheoli tir sy'n gydlynus, yn seiliedig ar egwyddorion, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn addasol. Mae angen hyn er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y cynlluniau newydd a nodir yn y ddogfen hon, y gall eu canlyniadau gael eu darparu a'u hatgyfnerthu os oes safonau sylfaenol addas a all fod yn sail i wneud taliadau.

7.1 Ers i'r DU ymuno â'r UE, mae arferion rheoli tir wedi bod yn cael eu rheoli gan y fframwaith o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chartref. Mae hyn yn ymgorffori clytwaith o gyfarwyddbau, statudau a chodau ymarfer y mae trawsgydymffurfio'n un ohonynt. Mae pob un wedi cael ei gyflwyno ar adeg wahanol mewn ymateb i fater gwahanol.

7.2 Y canlyniad yw 9 cyfarwydddeb gan yr UE a mwy nag 20 darn pellach o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol amaethyddiaeth, gyda llawer o reoliadau pellach yn wynebu agweddau eraill ar reoli tir. Mae llawer o'r fframwaith statudol yn berthnasol i ffermwyr a choedwigwyr fel ei gilydd, er mai trawsgydymffurfio amaethyddol yn bennaf a geir yn y PAC.

7.3 Ar y cyfan, mae'r dirwedd reoleiddiol yn glytwaith cymhleth o reoliadau gorgyffyrddol sy'n berthnasol i fathau gwahanol o dir a rheolwyr tir gwahanol dan amgylchiadau gwahanol. Y canlyniad yw system y mae'n aml yn anodd cydymffurfio â hi ac yn anodd ei gorfodi.

Cyfle ar gyfer newid

7.4 Mae deddfwriaeth gyfredol naill ai eisoes yn rhan o statud y DU neu bydd yn dod yn gyfraith gartref trwy Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 gan Lywodraeth y DU. Bydd hyn yn peri i'r system gyfredol barhau, ond ar sail gyfreithiol wahanol.

7.5 Cyn bo hir felly bydd gennym y cyfle i wneud newidiadau i wella ansawdd rheoleiddio. Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad ynghylch *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio gyda rhanddeiliaid sut orau i sicrhau bod dyluniad y Rhaglen Rheoli Tir newydd yn gallu cefnogi'r cyfle i greu set symlach a mwy cydlynus o reoliadau.

7.6 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'n glir egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a CNC geisio'u rhoi ar waith trwy eu swyddogaethau. Mae'r egwyddorion yn nodi dull seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â materion yn y tymor byr, canolig a hir i gryfhau ecosystemau a'r gwasanaethau sy'n deillio ohonynt. Caiff y dull hwn ei ddylunio a'i gynnal ar y cyd ag eraill. Bydd yr egwyddorion hyn yn arwain ac yn cefnogi datblygiad dull rheoleiddio newydd fydd yn sail i'r Rhaglen Rheoli Tir.

Pwysigrwydd ansawdd a safonau

7.7 Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer sector rheoli tir yng Nghymru sy'n gynaliadwy ac yn fywiog, mae angen inni alluogi'r sector i berfformio mewn termau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

7.8 Ceir consensws amlwg o'r broses Bord Gron ar Brexit y dylai brand Cymru fod yn seiliedig ar y sylfaen deiran hon. Os ydym yn dymuno ehangu a datblygu marchnadoedd newydd yn seiliedig ar y brand hwn, rhaid inni sicrhau ei fod wedi'i seilio ar safonau ansawdd cynnyrch, iechyd anifeiliaid a stiwardiaeth amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol fel rhai sydd ar flaen y gad yn y farchnad. Bydd rheoleiddio priodol hefyd yn allweddol i gynnal mynediad at farchnadoedd presennol ar ôl Brexit – wrth fasnachu gyda'r UE bydd yn ofynnol parhau i gydymffurfio o leiaf ar lefel reoleiddio'r UE, yn awr ac yn y dyfodol.

7.9 Ar ben hynny, ceir perthynas gref rhwng y ffordd yr ydym yn cefnogi rheolwyr tir ar y naill law a rheoleiddio a safonau priodol ar y llaw arall. Y rhesymau dros hyn yw:

- ei bod yn bwysig nad yw cymorth ar gyfer cadernid economaidd yn digwydd ar draul canlyniadau ehangach, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd;
- ei bod yn amhriodol i daliadau am nwyddau cyhoeddus ariannu cydymffurfiaeth â threfniadau rheoleiddio presennol. Dylid gwneud taliadau am ganlyniadau uwchlaw'r sail reoleiddiol.

7.10 Mae darparu cymorth yn rhywbeth sydd â rôl hollbwysig hefyd o ran hybu canlyniadau cadarnhaol, gwella ymwybyddiaeth rheolwyr tir o drefniadau rheoleiddio presennol a'u cyfraniad at amgylchedd cynaliadwy y tu hwnt i'r rheoliadau eu hunain. Ond nid yw cyngor yn cyrraedd pawb: er bod llawer o ffermwyr a choedwigwyr yn cydymffurfio i'r graddau bod eu busnesau eisoes yn ateb gofynion rheoleiddiol, mae lleiafrif yn parhau i esgeuluso arfer da.

7.11 Mae cyngor, cymhellion a rheoleiddio oll yn bethau sydd â rôl bwysig a synergyddol i helpu rheolwyr tir i fabwysiadu arfer da, gan leihau effaith anffafriol eu gweithgareddau ar yr amgylchedd ehangach a chynyddu canlyniadau cadarnhaol i'r eithaf.

Ffordd ymlaen

7.12 Fel a amlygwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, un opsiwn posibl ar gyfer cyflawni hyn yw cyflwyno Mesurau Sylfaenol. Byddai'r rhain yn cynnwys set o safonau sylfaenol, wedi'u datblygu gyda rhanddeiliaid, sy'n diffinio rheolaeth gyfrifol ar dir. Gallai'r safonau hyn ddeillio o elfennau priodol o godau a rheoliadau presennol gan gynnwys trawsgydymffurfio lle maent yn bodoli.

7.13 Gallai mesurau sylfaenol ar gyfer amcanion ansawdd dŵr, pridd, iechyd a lles anifeiliaid ac aer fod yr un mor berthnasol i'r holl reolwyr tir, gan symleiddio ac egluro'r gyfundrefn reoleiddiol gyfredol a mynd i'r afael â bylchau, anghysonderau a gwrthdaro a allai fodoli ar hyn o bryd. Yn hollbwysig, gallai cydymffurfio â mesurau sylfaenol ddarparu'r porth i'r cynlluniau cymorth ariannol a drafodwyd ym Mhenodau 5 a 6.

7.14 Mae cymhwyso set o reoliadau syml a chydlynus i'r holl reolwyr tir yn ymateb i'r angen i drin pawb yn yr un modd yng Nghymru, gan sefydlu arfer da, gan gefnogi rheolwyr tir sy'n dewis gwneud y peth iawn a mynd ati'n effeithiol i atal y nifer fach nad ydynt yn gwneud y peth iawn rhag parhau i ymddwyn felly. Mae gan Loegr a'r Alban eisoes fesurau sylfaenol ar gyfer rhai agweddau ar arfer amaethyddol.

7.15 Fel rhan o'n syniadau rhagarweiniol ynghylch ffordd ymlaen, rydym yn cynnig y dylai'r holl ddulliau newydd:

- gefnogi fframwaith deddfwriaethol Cymru, yn enwedig yr egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- ceisio peidio â chynyddu'r baich rheoleiddiol, ac eithrio lle mae materion newydd wedi codi neu lle nad yw'r trefniadau rheoleiddio presennol yn diwallu anghenion cymdeithasol;
- amcanu at symleiddio a chynyddu cydlyniad trefniadau rheoleiddio yn hytrach nag ychwanegu darnau byrdymor pellach;

- canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gynnig dull hyblyg, ond eto gan sicrhau bod mesurau sy'n unol â'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni, eu meintioli a'u gorfodi'n briodol;
- cael eu rhoi ar waith ynghyd â chyingor ac arweiniad eglur, a gaiff eu cyfleu'n effeithiol;
- bod yn seiliedig ar ddull rheoleiddio cymesur a danategir gan ddealltwriaeth am risg;
- targedu adnoddau cydymffurfio a gorfodi ble byddant yn dwyn y budd mwyaf.

7.16 Mae'r egwyddorion hyn yn debygol o fod yn rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ynghylch y pwnc yma. Yn arbennig, rydym yn bwriadu archwilio mesurau sy'n galluogi rheolwyr tir i asesu eu heffaith a mynd i'r afael â hi eu hunain. Mae dull seiliedig-ar-egwyddorion sy'n canolbwyntio ar ddibenion yn hytrach na'r modd yn ysgogi arferion arloesol ac yn adlewyrchu'r ffaith y gall datrysiadau cydymffurfio fod yn wahanol i reolwyr tir gwahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru dan amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, mae cynllunio'r modd y rheolir maethynnau'n darparu modd integredig i gydnabod effeithiau ar ddŵr, pridd ac aer a mynd i'r afael â hwy, sydd ar yr un pryd yn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol rheoli tir ac o gymorth i greu arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas ag adnoddau.

Y camau nesaf

7.17 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig ystyried gwelliannau i drefniadau rheoleiddio ochr yn ochr â llunio ffyrdd gwell o ddarparu taliadau cymorth. Fodd bynnag, mae diwygio rheoleiddiol yn her fawr sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

7.18 Mae'r bennod hon wedi nodi syniadau rhagarweiniol Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch diwygio rheoleiddiol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, ar y cyd ag ymatebion yn y dyfodol i'r ymgynghoriad hwn ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio a gynhelir maes o law, yn goleuo ein barn hirdymor ynglŷn â'r mater yma.

7.19 Rydym yn dymuno caniatáu digon o amser ar gyfer y broses diwygio rheoleiddiol i sicrhau bod y datrysiadau mwyaf priodol yn cael eu dwyn gerbron. Yng ngoleuni'r ymgynghoriadau hyn, byddwn felly'n cyhoeddi datganiad yn yr hydref ynghylch sut i fynd i'r afael â diwygio rheoleiddiol ar ôl Brexit.

7.20 Mae gan ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys rheolwyr tir, cwmnïau dŵr, cyrff amgylcheddol, sefydliadau twristiaeth a defnyddwyr oll fuddiant mewn sicrhau bod gennym drefniadau rheoleiddio sy'n addas ar gyfer eu diben yn y maes hwn. Cydnabyddir bod gwaith Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol yn rhoi dechrau addawol a byddwn yn ystyried anghenion byrdymor a hirdymor.

Bydd y ffordd yr ydym yn rhoi cymorth i reolwyr tir yn newid yn sylweddol. Byddwn felly'n ymgymryd â chyfnod pontio dros sawl blwyddyn i reoli'r llwybr at y Rhaglen Rheoli Tir newydd. RPW fydd y craidd gweinyddol ar gyfer taliadau o hyd a byddwn yn sicrhau bod deddfwriaeth briodol yn bodoli.

8.1 Yn “*Diogelu Dyfodol Cymru*”, fe wnaethom ddadlau'n gryf y dylai Llywodraeth y DU geisio cytundeb ynghylch cyfnod pontio i osgoi'r ansicrwydd sy'n deillio o ymadael yn sydyn â'r Undeb Ewropeaidd (UE) megis neidio oddi ar glogwyn. Dyma safbwynt y DU yn awr ac fe'i hadlewyrchir yn Neddf yr UE (Ymadael) 2018 ddrafft. Ond mae natur y negodiadau'n golygu nad oes dim wedi'i gytuno nes bod popeth wedi'i gytuno.

Pontio i'r Rhaglen Rheoli Tir

8.2 Mae'r Rhaglen Rheoli Tir newydd yn newid digynsail mewn trefniadau cymorth. Rhaid iddo beidio â digwydd dros nos ac ni fyddwn yn tynnu cyllid yn ôl yn llawn o hen systemau nes bod systemau newydd yn weithredol. Bydd yn cymryd amser i'w sefydlu ac rydym am barhau i gydweithio i gyflawni proses bontio esmwyth.

8.3 Er bod cryn ansicrwydd ynghylch natur Brexit mae'n amlwg bod amser yn fyr. Rydym felly'n disgrifio llwybr lefel uchel ar gyfer pontio. Gall rheolwyr tir addasu a bydd proses bontio'n rhoi amser i reolwyr tir addasu.

8.4 Rydym eisoes wedi ymrwmo i gynnal y cymorth uniongyrchol cyfredol a roddir trwy'r PAC (y BPS) ar gyfer 2019 ar yr un sail ag yr ydym yn ei dalu yn awr. Am y rheswm hwn, ni fydd y broses o bontio i'r trefniadau newydd yn dechrau cyn 2020. Ein huchelgais lefel-uchel yw bod wedi cwblhau'r broses o roi'r trefniadau newydd ar waith a bod y rhaglen newydd yn weithredol erbyn 2025.

8.5 Yng Nghymru, rydym yn rhagweld y bydd cyfnod pontio graddol yn cynnwys tair elfen gydamserol:

Cam 1: tynnu cymorth uniongyrchol yn ôl yn raddol

Cam 2: cyflwyno cynlluniau newydd yn drefnus

Cam 3: ymadael yn drefnus â'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG.)

8.6 Y bwriad ar y cyfan yw defnyddio cyllid a gaiff ei ryddhau o gymorth uniongyrchol a'r RhDG (camau 1 a 3) a'i ddefnyddio i ariannu cynlluniau newydd (cam 2). Mae hyn yn achosi her o ran sicrhau ein bod yn gallu rhoi cymorth yn y ffordd orau ar yr adeg gywir heb amharu ar lif yr arian i ffermwyr. O ystyried y berthynas agos rhwng y rhaglen, polisi masnach a chyllid, byddwn yn gwneud penderfyniadau penodol pan fo mwy o eglurder. Caiff ein galwad am fwy o eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch y cyllid ei nodi ym Mhennod 4.

8.7 Y tu hwnt i gymorth ariannol, mae gan Lywodraeth Cymru rôl ymgynghori a hwyluso allweddol o ran helpu ein sectorau tir i baratoi ar gyfer Brexit, gan gynnwys cyngor busnes, cyfnwied gwybodaeth ac ymchwil a datblygu. Caiff cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer ffermwyr ei nodi ym Mhennod 5.

Cam 1: tynnu cymorth uniongyrchol yn ôl

8.8 Mae'r BPS wedi bod yn rhan bwysig o incwm busnesau fferm am flynyddoedd lawer (gan amrywio'n fawr yn ôl is-sector). Felly rhaid inni fod yn ofalus, yn sensitif ac yn glir o ran sut yr ydym yn dirwyn taliadau i ben yn raddol. Bydd angen cwblhau dadansoddiad manwl a byddwn yn ymgynghori ynghylch sut orau i wneud

hyn. Mae opsiynau enghreifftiol yn cynnwys lleihau taliadau mewn termau absoliwt, yn ôl cyfran neu drwy newid cyfraddau capio. Diben lleihau cymorth uniongyrchol yw rhyddhau arian i lifo'n ôl i reolwyr tir trwy'r cynlluniau newydd, fel a nodir yng nghanam 2.

8.9 Tra bydd y BPS yn parhau i weithredu byddwn yn archwilio cyfleoedd i leihau meysydd lle ceir cymhlethdod gweinyddol. Bydd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad manwl pellach ond mae opsiynau lefel-uchel yn cynnwys:

- cael gwared â rhai neu'r cyfan o'r rheolau gwyrddu cyfredol;
- symleiddio meini prawf dethol ar gyfer archwilio;
- symleiddio rheolau trawsgydymffurfio ac addasu'r gofynion lleiaf

Cam 2: gweithredu cynlluniau newydd

8.10 Bydd cyllid a gaiff ei ryddhau o ganlyniad i leihau'r BPS yn raddol yn galluogi arian i lifo i mewn i gynlluniau newydd.

8.11 Fel a nodwyd ym Mhennod 4, nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch cydbwysedd y cyllid rhwng y Cynllun Cadernid Economaidd a'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd priodol yn debygol o newid dros amser. Yn arbennig, mae achos dros ganolbwyntio cyllid ar y Cynllun Cadernid Economaidd yn y blynyddoedd cynnar i gynorthwyo rheolwyr tir i ymateb i'r amgylchedd ar ôl Brexit.

8.12 Yn y tymor hir, efallai mai'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus fydd y brif ran o'r cwmpas cyllido. Ond bydd yn cymryd amser a gwaith paratoi sylweddol i'w sefydlu. Mae achos da dros ddyrannu arian i brosiectau peilot cyn rhoi'r trefniadau newydd ar waith ar raddfa lawn. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i reolwyr tir bontio'n raddol o'r cynlluniau presennol (sy'n arbennig o berthnasol i Glastir).

8.13 Mae'r cyllid hwn ar wahân i unrhyw alwadau ar Gronfa Bontio sector-cyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer Pontio o'r UE, sy'n gyfanswm o £50m.

Ymhlith pethau eraill, bydd y gronfa hon yn ariannu prosiect meincnodi cig coch a fydd yn gweithio gyda 2,000 o ffermwyr i ddeall eu perfformiad ariannol a thechnegol yn fanwl. Bydd y canlyniadau'n helpu i oleuo targedau priodol ar gyfer cymorth dan y Cynllun Cadernid Economaidd.

Cam 3: ymadael yn drefnus â'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)

8.14 Daw'r RhDG i ben yn 2020 ond mae llawer o gynlluniau'n cynnwys gweithgarwch a chyllid parhaus hyd at 2023 a thu hwnt. Felly bydd ymrwymadau a wnaed dan y RhDG gyfredol a chynlluniau etifeddol yn dod i ben ar ystod o adegau yn ystod y cyfnod pontio ac ar ei ôl. Bydd yr holl ymrwymadau sydd yn eu lle ar yr adeg yr ymadewir â'r UE yn dal i gael eu cyflawni.

Cyflawni'r Rhaglen Rheoli Tir

8.15 Mae esblygiad y PAC yn golygu bod rheolwyr tir a'r Llywodraeth wedi gwneud newidiadau i daliadau yn y gorffennol. Yn arbennig, mae'r ddwy broses ddiwygio ddiwethaf, a gyflwynwyd gan yr UE, wedi arwain at newid sylweddol o gymorth cysylltiedig (taliadau sy'n gysylltiedig â lefelau cynhyrchu) i system newydd sy'n seiliedig ar arwynebedd.

8.16 Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) wedi ymateb i'r ddwy her flaenorol a thros y 15 mlynedd ddiwethaf, gan gynnal hanes ardderchog am weinyddu a darparu cynlluniau a thaliadau'r UE mewn modd amserol ac effeithlon. Ein bwriad yw adeiladu ar y llwyddiant hwnnw.

8.17 Rydym yn rhagweld y bydd RPW yn parhau i weithredu fel gweinyddwr craidd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir ond byddwn yn parhau i archwilio rôl bosib sefydliadau cyflawni eraill. Bydd RPW hefyd yn sicrhau bod taliadau presennol yn dal i gael eu gwneud nes bod holl raglenni presennol yr UE yn dod i ben.

8.18 Dylai symleiddio'r broses ymgeisio a gweinyddol fod yn un o amcanion allweddol y cynlluniau newydd. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai Llywodraeth Cymru reoli cymhlethdod cefndirol fel bod y system flaen mor syml â phosibl i'r sawl sy'n cael y cymorth

8.19 Bydd RPW yn parhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n darparu dull hyblyg ac arloesol o roi cymorth i reoli tir. Mae hyn yn cynnwys parhau i wella cysylltedd digidol sefydledig, yn enwedig Porth Ar-lein a Chanolfan Cysylltiadau Cwsmeriaid RPW, ac adeiladu arno. Bydd gwybodaeth a gasglwyd dros flynyddoedd lawer dan y RhDG a gwybodaeth fapio fewnol ac ar-lein yn ffynhonnell data amhrisiadwy ar gyfer datblygu'r cynlluniau hefyd.

8.20 Bydd y Rhaglen Rheoli Tir yn cael ei datblygu ar gyfer Cymru a bydd taliadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer busnes trawsffiniol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn gyda Llywodraeth y DU a'r Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Deddfu ar gyfer newid

8.21 Mae Deddf yr UE (Ymadael) 2018 ddrafft yn nodi'r telerau arfaethedig ar gyfer cyfnod pontio ffurfiol y mae disgwyl iddo redeg o 29 Mawrth 2019 (y diwrnod ymadael) tan 31 Rhagfyr 2020. Fel y mae wedi'i ddrafftio, bydd rheolau'r UE yn parhau i fod yn gymwys tan y dyddiad hwnnw, ond yn amodol ar ddarpariaethau'r DU a datganoledig a wnaed dan Fil yr UE (Ymadael) gan Lywodraeth y DU. Os na cheir cytundeb ar ymadael, bydd yr holl bwerau a chyfrifoldebau'n dod i rym ar 29 Mawrth 2019 dan ddarpariaethau a wnaed trwy'r Ddeddf.

8.22 Mae un eithriad pwysig yn y cytundeb yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol y PAC a fydd dan ddeddfwriaeth y DU o flwyddyn hawlio 2020, nid 2021. Bydd blynyddoedd hawlio 2018 a 2019, o'u cyferbynnu, yn gweithredu ar yr un sail â blynyddoedd blaenorol. Bydd RhDG Cymru yn parhau i weithredu dan drefniadau rheoleiddio'r UE tan ddiwedd y Rhaglen, a allai fod tan 2023.

8.23 Effaith Deddf (Ymadael) yr UE fydd diogelu ac ymgorffori Rheoliadau Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwys i gyfraith y DU. Ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen dwyn deddfwriaeth sylfaenol gerbron i wneud darpariaeth ar gyfer y rhaglen. Ein huchelgais yw sefydlu deddfwriaeth o'r fath cyn diwedd y Cynulliad hwn ac mewn da bryd i sicrhau bod y cyfnod pontio graddol yn gallu dod i rym.

8.24 Hefyd, ac ar sail interim gyda chyfyngiad amser, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ym Mil Amaethyddiaeth arfaethedig Llywodraeth y DU. Diben y darpariaethau fydd rhoi pwerau i Weinidogion Cymru allu cychwyn y cynllun pontio graddol tan y daw deddfwriaeth sylfaenol Gymreig i rym.

Cwestiynau Ymgynghori – 16 i 20 o 20

16. Beth yw eich sylwadau ar y cyfnod pontio graddol a'n huchelgais i gwblhau'r newidiadau erbyn 2025?
 17. Beth yw'r ffordd fwyaf priodol o ddirwyn y BPS i ben yn raddol er mwyn dechrau gweithredu'r cynlluniau newydd?
 18. Sut allwn symleiddio'r broses gyfredol o weinyddu a chynnal y BPS yn ystod y cyfnod pontio graddol
 19. Safonau'r Gymraeg
A fydd y rhaglen rheoli tir arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (boed gadarnhaol neu anffafriol) ar:
 - gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
 - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
 20. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach am y rhaglen rheoli tir a gynigir?
-

Bydd Brexit yn golygu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgwyddo pwerau newydd a sylweddol. Ar y sail hon yr ydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd i Gymru. Lle y bo'n briodol, byddwn yn gweithio mewn modd adeiladol gyda'r pedair gweinyddiaeth ar fframweithiau cyffredin. Ond rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu mwy o eglurder o lawer ynghylch cyllid yn y dyfodol.

9.1 Yn amlwg mae'r cynigion yn y ddogfen hon wedi'u seilio ar y safbwynt Cymreig ond byddant yn cael eu gweithredu yng nghyd-destun y DU. Rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau gorau – i Gymru a'r DU – trwy gydweithio. Am y rheswm hwn, byddwn yn parhau i weithio mewn modd adeiladol gyda Llywodraeth y DU wrth iddi baratoi i ymadael â'r UE a gweithredu ei chynlluniau cymorth newydd ar gyfer ffermwyr yn Lloegr. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y cytundeb rhynglywodraethol a lofnodwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf yr UE (Ymadael) 2018.

9.2 Mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi cytuno y dylai fod cynnydd sylweddol ym mhwerau penderfynu'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae hyn yn berthnasol i gymorth ar gyfer ffermwyr, datblygu gwledig, iechyd anifeiliaid a rheoleiddio amgylcheddol.

9.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill ar fframweithiau cyffredin lle y mae'r rhain yn angenrheidiol. Mae Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) wedi cytuno y bydd fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu lle maent yn angenrheidiol er mwyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau bod y DU yn gallu negodi cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u gweithredu;
- ei gwneud yn bosibl rheoli adnoddau cyffredin;
- gweinyddu cyfiawnder a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion sydd ag elfen trawsffiniol;
- diogelu'r DU.

9.4 Gallai fframweithiau mewn meysydd megis cymorth ar gyfer ffermwyr roi hyblygrwydd ychwanegol sylweddol i Gymru. Mae tirweddau a'u cymunedau'n amrywio'n fawr ledled y DU a dyma pam fod amaethyddiaeth a'r amgylchedd yn ddau o'r cymwyseddau datganoledig mwyaf hirsefydlog.

9.5 Nid yw'r hyblygrwydd hwn yn tanseilio gallu'r DU i lunio polisi masnach a chytuno ar fargeinion masnach rydd. Ond mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl chwarae rhan lawn yn y broses o lunio polisi masnach newydd y DU gyda'r UE a thrydydd wledydd o ystyried ei effaith bosibl ar ein sectorau rheoli tir – oherwydd y marchnadoedd y gellir eu hagor a'r safonau y gellir eu gosod.

9.6 Dim ond un enghraifft o'r modd y mae'n rhaid i unrhyw fframwaith gael ei gefnogi gan welliant sylweddol yn y saernïaeth ddatganoli yw masnach. Yn ein papur "*Datganoli a Brexit*", fe gynigion ni sefydlu Cyngor Gweinidogion newydd i ddarparu trefniadau cydlynol a phenderfynu priodol mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar bedair gweinyddiaeth y DU. Mae'n iawn cydweithio ond rhaid gwneud hyn trwy drefniadau llywodraethu priodol ac yng nghyd-destun parch gan bawb tuag at ei gilydd.

9.7 Yn y cyd-destun hwn, arwyddodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU ar Ddeddf yr UE (Ymadael) â Deddf yr UE (Ymadael) 2018.. Yn ôl y cytundeb hwnnw, ni chaiff y naill lywodraeth na'r llall wneud darpariaethau newydd mewn nifer fach o feysydd, gan gynnwys cymorth i ffermwyr, heb yn gyntaf gytuno ar fframwaith. Bydd hynny'n sicrhau na chaiff deddfwriaeth ei gwneud yn y meysydd hyn heb gydsyniad y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Cyllid

9.8 Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud dau fath o warant ar gyfer taliadau cymorth i ffermwyr.

Yn gyntaf, bydd cyfanswm y cyllid dan Golofn 1 y PAC yn cael ei warantu tan 2022. Bydd hwn yn cael ei gyfrifo fel y cyfartaledd mewn arian parod o 2014-2020. Yn ail, bydd ymrwymadau a wnaed dan y RhDG yn cael eu gwarantu gan Drysorlys y DU – os na fyddant yn cael eu cyflawni gan yr UE – nes bod contractau'n dod i ben (gyda gwariant yn para tan 2023 o bosibl).

9.9 Mae'r ddau'n fesurau pwysig ond ni ddarparwyd unrhyw eglurder ynghylch sut y bydd cyllid yn cael ei ddsbarthu rhwng y pedair gwlad unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE. Mae hyn o bwys mawr i Gymru ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau fel mater o frys y bydd Cymru yn cadw ei chyfran gyfredol o gyllid. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn dangos yr achos cryf dros gymorth cyhoeddus parhaus. Trafodir hyn ym Mhennod 4.

Pennod 10: y camau nesaf

10.1 Brexit yw'r sbardun i ddiwygio trefniadau rheoli tir yng Nghymru. Mae achos cryf dros barhau i gefnogi rheolwyr ein tir, ond mae angen inni wneud hynny mewn ffordd wahanol i harneisio'r holl fanteision y gall ein tir eu dwyn i'r genedl.

10.2 Ar y sail hon yr ydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd i Gymru. Mae'r achos dros ddatganoli'n gryfach nag erioed ac mae'r rhaglen yn nodi sut y bydd Cymru'n defnyddio pwerau newydd a gaiff eu dychwelyd o Ewrop.

10.3 Mae'n amlwg ein bod yn gweithredu mewn cyfnod o ansicrwydd sylweddol. Dim ond wrth i natur perthynas y DU â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol ddod yn gliriach y gellir penderfynu ar y manylion.

10.4 Yn yr un modd, dim ond gyda chefnogaeth ein rhanddeiliaid y gallwn wneud cynnydd pellach. Am y rheswm hwn, rydym yn rhedeg ymarfer ymgynghori estynedig dros 16 wythnos. Byddwn yn treulio'r Haf yn ymgysylltu ac yn sefydlu trefniadau cydweithio newydd. Bydd yr ymgysylltu hwn yn cyrraedd ei benllanw yn y pen draw gyda phapur gwyn manwl, ffurfiol a fydd yn cynnwys cynigion penodol y byddwn yn ymgynghori arnynt yng Ngwanwyn 2019.

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Gall comisiynu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gwaith hwn gael ei wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

1. Pennod 4

Rhaglen Rheoli Tir

Rydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Ydych chi'n cytuno mai'r cynlluniau hyn yw'r ffordd orau o gyflawni yn unol â'r egwyddorion? Os nad ydych, pa ddewisiadau eraill fyddai orau?

2. Pennod 4

Rhaglen Rheoli Tir

A oes angen i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd? Os felly, pa gamau gweithredu fyddai orau?

3. Pennod 5

Cadernid Economaidd

O'ch profiad chi o raglenni cyfredol, beth fyddai'n gweithio'n dda yn y dyfodol yn eich tyb chi?

4. Pennod 5

Cadernid Economaidd

Ydych chi'n cytuno â ffocws y Cynllun Cadernid Economaidd ar dyfu'r cyfleoedd mewn marchnadoedd ar gyfer cynnyrch o'r tir drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi, yn hytrach na chyfyngu'r cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig?

5. Pennod 5

Cadernid Economaidd

Ai'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth yw'r rhai cywir i wella eu cadernid economaidd? A oes unrhyw feysydd y dylid eu cynnwys ond nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd?

6. Pennod 5

Cadernid Economaidd

O'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth, pa rai yw'r blaenoriaethau, o ran cyllid a'r drefn o ran eu darparu? Er enghraifft, a oes angen rhoi rhai mesurau ar waith cyn rhai eraill?

7. Pennod 5

Cadernid Economaidd

A ddylem fod yn buddsoddi mewn pobl, er enghraifft i gyflwyno syniadau, sgiliau a phobl newydd i faes rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru? Os felly, sut ddylem ymchwilio i hyn?

8. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

Rydym wedi nodi ein paramedrau arfaethedig ar gyfer y cynllun nwyddau cyhoeddus. A ydynt yn briodol? Fyddech chi'n newid unrhyw beth? Os felly, beth?

9. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

Mae'r cynllun hwn i fod i gynnig y cyfle i reolwyr tir gael mynediad at ffrwd incwm newydd sylweddol wrth i'r BPS ddod i ben. Sut allem ni wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddenu rheolwyr tir tra'n bod hefyd yn gwireddu ein gweledigaeth ac yn cyflawni ein hamcanion?

10. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

A oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eich tyb chi? Os felly, pam?

11. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

Gallai nifer o nwyddau cyhoeddus gymryd blynyddoedd lawer, weithiau degawdau, i gael eu gwireddu'n llawn, er enghraifft dal a storio carbon trwy goed llydanddail. Er mwyn cyflawni'r rhain, efallai y bydd angen i reolwyr tir ymrwymo i gontract hirdymor. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd cytundebau o'r fath yn gweithio? Beth fydd manteision neu anfanteision cytundebau o'r fath yn eich tyb chi?

12. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

Gallai dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus ddarparu mwy o werth am arian na gweithgarwch ar wahân mewn rhai achosion. Sut allai'r cynllun hwyluso'r dull hwn? Sut allai cyrff cyhoeddus a phreifat gyfrannu at bartneriaethau o'r fath?

13. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

all rhai camau gweithredu ddarparu nwyddau cyhoeddus lluosog yn yr un lleoliad. Er enghraifft, gall adfer mawnogydd ddwyn manteision ar gyfer dal a storio carbon a lleihau perygl llifogydd.

Fodd bynnag, gallai rhai lleoliadau fod yn addas ar gyfer nwyddau cyhoeddus lluosog o weithgareddau gwahanol. Er enghraifft, gallai un lleoliad fod yn addas naill ai i blannu coed ar gyfer dal a storio carbon, neu gael ei droi'n ôl yn wlypdir ar gyfer bioamrywiaeth. Sut allai lleoliadau ar gyfer manteision unigol, lluosog neu fanteision sy'n cystadlu â'i gilydd gael eu blaenoriaethu?

14. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

O ystyried y bydd cymorth i ddarparu nwyddau cyhoeddus yn ddull newydd yng Nghymru, bydd peth wmbredd o hyfforddiant a chyngor ar gyfer y sector yn ofynnol. Sut orau ellir darparu'r hyfforddiant a'r cyngor hwn? Pa feysydd yn y sector yw'r rhai y mae arnynt angen y mwyaf o sylw?

15. Pennod 6

Nwyddau Cyhoeddus

Mae buddsoddi'n breifat mewn prynu nwyddau cyhoeddus eisoes yn digwydd, ond ar raddfa gymharol fach. Sut allai'r cynllun newydd hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat? Beth yw'r rhwystrau i'r math yma o fuddsoddiad?

16. Pennod 8

Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Beth yw eich sylwadau ar y cyfnod pontio graddol a'n huchelgais i gwblhau'r newidiadau erbyn 2025?

17. Pennod 8

Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Beth yw'r ffordd fwyaf priodol o ddirwyn y BPS i ben yn raddol er mwyn dechrau cynnal y cynlluniau newydd?

18. Pennod 8

Pontio, cyflawni a deddfwriaeth

Sut allwn symleiddio'r broses gyfredol o weinyddu a chynnal y BPS yn ystod y cyfnod pontio graddol?

19. Safonau'r Gymraeg

A fydd y rhaglen rheoli tir arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

20. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach am y rhaglen rheoli tir a gynigir

